

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 18th Medi 2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Teitl: Canllawiau'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer adrannau'r DU ar opsiynau lliniaru ar gyfer risgiau i lif data

Dyddiad dod i ben / adolygiad Ein hasesiad cyfredol yw bod y tebygolrwydd o adael yr UE heb fargen ar 31 Hydref yn amodol ar y DU yn gadael yr UE ar 31 Hydref

I'w weithredu gan:

*UHB/ CEO's ymddiriedaeth
WAST
NWIS
PHW
deintyddiaeth
fferylfa
gwasanaethau cymdeithasol
HEIW*

Angen gweithredu erbyn Mae Llywodraeth

Cymru wedi bod yn gweithio ar draws y sector cyhoeddus i sicrhau bod y risg o golli mynediad at ddata gofynnol yn dilyn Brexit yn cael ei ddeall a'i lliniaru. Mae'r DCMS wedi paratoi canllawiau ar gyfer adrannau'r DU ar opsiynau lliniaru ar gyfer risgiau i lif data.

Anfonwr: Peter Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :

Peter Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Peter.Lloyd.Jones@gov.wales

Jacalyn Lewis, Rheolwr Gwybodaeth a Gwybodaeth yr Adran Jacalyn.lewis11@gov.wales

Dogfennau amgaeedig: Amgaeuwch lythyr eglurhaol ac arweiniad ar gyfer holl Gyrrff Sector Cyhoeddus Cymru



Our ref/Ein cyf: WHC/2019/031

18 Medi 2019

Cydweithiwr Annwyl

Byddwch yn ymwybodol yn sgil gohebiaeth flaenorol bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar draws y sector cyhoeddus i sicrhau bod y perygl o golli mynediad at ddata gofynnol ar ôl Brexit wedi'i ddeall, a bod camau yn cael eu cymryd i liniaru hynny. Ar hyn o bryd, mae'r tebygrwydd y byddwn yn ymadael â'r UE heb gytundeb ar 31 Hydref mor gryf ag erioed.

O ran cefndir, mae gwybodaeth bersonol wedi medru llifo'n rhydd rhwng sefydliadau yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn y gorffennol yn sgil rheolau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu na fydd unrhyw newid sylweddol i'r rheolau ar ddata personol pan fyddwn yn ymadael â'r UE, gan y bydd y GDPR yn cael ei ymgorffori i gyfraith y DU.

Ni fydd mor syml i wybodaeth bersonol barhau i lifo'n rhydd i'r ddau gyfeiriad, fodd bynnag, os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ymadael sy'n darparu'n benodol ar gyfer caniatáu i'r data personol barhau i lifo. Mewn sefyllfa o'r fath, ni ddylai fod unrhyw effaith ar drosglwyddo gwybodaeth bersonol o'r DU i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), ond bydd llif data o'r AEE i'r DU yn cael ei effeithio.

Bydd angen i'r DU gael asesiad digonolrwydd o'i threfniadau diogelu data gan yr UE. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud dro ar ôl tro na fydd yn cychwyn ar yr asesiadau digonolrwydd hynny nes bod y DU wedi ymadael â'r UE. O ganlyniad, byddai "bwllch digonolrwydd" yn union ar ôl ymadael heb gytundeb, ac mae'n debygol y byddai'n parhau am sawl blwyddyn nes i'r UE ddod i benderfyniad ynghylch a oes gan y DU drefniadau digonol yn eu lle i ganiatáu i ddata personol lifo'n rhydd o'r AEE i'r DU. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd modd i ddata personol lifo'n rhydd o'r AEE.



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
• Health and Social Services Group
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff • CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf
• First Point of Contact Centre:
E-bost • E-mail:
CustomerHelp@gov.wales
Ffôn • Tel: 0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diben y llythyr hwn yw sicrhau eich bod wedi derbyn yr holl ganllawiau sydd ar gael er mwyn caniatáu i chi liniaru unrhyw risg o golli data yr ydych wedi'i nodi.

Wele ynghlwm ganllaw a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r canllaw yma gyda phob corff cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cynorthwyo gyda pharatoadau ar gyfer BREXIT heb gytundeb. Mae'r ddogfen sydd ynghlwm yn dwyn ynghyd yr holl ganllawiau diweddaraf sydd ar gael ar unrhyw berygl o amharu ar lif data, a dylid ei darllen law yn llaw gyda chanllaw Comisiynydd Gwybodaeth y DU sydd yn cael ei ddiweddarau'n gyson. <https://ico.org.uk/for-organisations/data-protection-and-brexite/>

Yn gywir

Peter Jones
Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Medi 2019

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus.

Lluniwyd y canllawiau hyn i gynorthwyo cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i liniaru'r risgiau diogelu data sy'n gysylltiedig â Brexit heb gytundeb.

Mae'r tudalennau canlynol yn dwyn ynghyd yr holl ganllawiau diweddaraf sydd ar gael a dylid eu defnyddio ar y cyd â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Diffiniadau

Yn y canllawiau hyn priodolir i'r termau "data personol", "rheolwr" a "prosesydd" y diffiniadau a geir yn Erthygl 4 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ("GDPR"). Mae "data personol" yn cwmpasu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn a adwaenir neu y mae modd ei adnabod. Mae "rheolwr" data yn cyfeirio at unigolyn, cwmni, neu gorff arall sy'n pennu'r diben a'r dull o brosesu data personol. "Prosesydd" data yw unigolyn sy'n ymdrin â data personol dan gyfarwyddyd rheolwr (er enghraifft storio, casglu neu ddadansoddi data yn rhan o wasanaeth a ddarperir i'r rheolwr).¹

Rhagor o wybodaeth

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi ar ei gwefan gyfres o ganllawiau ar gyfer Brexit heb gytundeb:

- [Cwestiynau Cyffredin](#)
- [Chwe cham](#)
- [Canllawiau manwl](#)
- [Canllawiau ac offeryn Cymalau Cytundebol Safonol](#)

¹Ceir diffiniadau ar gyfer "rheolwr" a "prosesydd" ynghyd â thermâu cysylltiedig eraill yn y ddogfen hon gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
<https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1546/data-controllers-and-data-processors-dp-guidance.pdf>. Gweler hefyd Erthyglau 4(1), (7) ac (8), GDPR yn y drefn honno.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Defnyddio Cymalau Cytundebol Safonol i gael gafael ar ddata gan yr AEE mewn sefyllfa Brexit heb gytundeb.....	3
Trefniadau Gweinyddol o dan Erthygl 46 o'r GDPR	8
Rhanddirymiaidau ar gyfer sefyllfaoedd penodol o dan Erthygl 49 o'r GDPR.....	10
Gweithio gyda phroseswyr data sydd wedi'u lleoli yn yr AEE yn achos Brexit heb gytundeb	17
Mynediad i systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data'r UE yn achos Brexit heb gytundeb	21
Cydymffurfiaeth diogelu data ar gyfer Brexit heb gytundeb	24
Dulliau Trosglwyddo Amgen o dan Erthygl 46 o'r GDPR	28
Cwestiynau Cyffredin.....	31
ATODIAD B - TEMPLED TREFNIANT GWEINYDDOL A NODYN EGLURHAOL.....	44



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Defnyddio Cymalau Cytundebol Safonol i gael gafael ar ddata gan yr AEE mewn sefyllfa Brexit heb gytundeb

Lluniwyd y canllawiau hyn i gynorthwyo cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru:

- i benderfynu a oes modd iddynt ddefnyddio Cymalau Cytundebol Safonol i ddiogelu trosglwyddo data personol yn rhyngwladol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) i'r DU, pe byddai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb; ac
- i weithredu'r Cymalau Cytundebol Safonol yn ymarferol mewn trefniadau newydd neu bresennol.

Llif data personol mewn sefyllfa Brexit heb gytundeb

Bydd y DU, dros gyfnod pontio, yn cydnabod yr AEE fel pe bai wedi bod yn destun penderfyniad digonolrwydd cadarnhaol gan y DU. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gall data personol barhau i lifo'n rhydd **o'r DU i'r AEE**.

Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl y bydd y Comisiwn Ewropeaidd wedi gwneud penderfyniad digonolrwydd ynghylch y DU ar adeg yr ymadawiad ym mis Hydref 2019. At ddibenion GDPR yr UE, felly, caiff y DU ei thrin fel trydedd wlad heb benderfyniad digonolrwydd. Cyfyngir ar drosglwyddo data personol **o'r AEE i'r DU** oni bai bod camau diogelu priodol ar waith, neu fod un o'r eithriadau statudol (a elwir yn rhanddirymiadau ar gyfer sefyllfaoedd penodol) yn berthnasol i'r trosglwyddiad. [Mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau rhyngwladol](#), gan gynnwys rhestr o'r camau diogelu priodol, ar gael gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cymhwysedd a chyfyngiadau

Cymalau Cytundebol Safonol (a elwir weithiau'n gymalau enghreifftiol) yw un o'r dulliau a ddefnyddir amlaf i reolwyr sydd wedi'u sefydlu yn yr AEE allu sicrhau dull diogelu priodol ar gyfer trosglwyddo data personol i drydedd wlad heb benderfyniad digonolrwydd. Mae'r cymalau ar ffurf safonol ragnodedig sy'n gorfodi rhwymedigaethau cytundebol ar y mewnforiwr a'r allforiwr i sicrhau dulliau diogelu angenrheidiol i ddiogelu trefniadau prosesu data personol y tu allan i'r AEE. Mae'r darpariaethau yn caniatáu i destunau data orfodi'r rhwymedigaethau a nodir yn y cymalau yn uniongyrchol yn erbyn y mewnforiwr a'r allforiwr.

Mae Cymalau Cytundebol Safonol yn syml i'w mabwysiadu, ac nid oes angen unrhyw awdurdodiad arbennig pan fyddant wedi'u llofnodi gan y ddau sefydliad dan sylw yn y trosglwyddiad data. Gellir llofnodi Cymalau Cytundebol Safonol ar sail unigol, neu gellir eu cyfuno mewn contract presennol neu yn y dyfodol (fel arfer fel atodlen neu atodiad i'r contract hwnnw).

Cyfyngiad pwysig ar fabwysiadu Cymalau Cytundebol Safonol yw eu bod ar hyn o bryd ond wedi'u cymeradwyo ar gyfer trosglwyddo data personol rhwng



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

rheolwyr a rheolwyr, neu rhwng rheolwyr a phroseswyr pan fo'r rheolwr yn yr AEE.

Mae Cymalau Cytundebol Safonol yn ddilys ar gyfer sefyllfaoedd sy'n cynnwys derbyn data personol gan sefydliad yn yr AEE sy'n gweithredu fel rheolwr (h.y. pan fo sefydliad yr AEE yn gyfrifol, ar ei ben ei hun neu ar y cyd, am ddiffinio pam a sut y mae data personol yn y gronfa ddata berthnasol i gael eu defnyddio, eu casglu a'u rhannu). Nid yw Cymalau Cytundebol Safonol yn gymwys mewn achosion pan fo sefydliad yn yr AEE yn cadw data personol fel prosesydd (h.y. pan fo sefydliad yn yr AEE yn gweithredu ar gyfarwyddyd yr endid rheoli yn unig). Yn yr achos hwnnw, gweler y canllawiau isod, sef 'Gweithio gyda phroseswyr data yn yr AEE mewn sefyllfa Brexit heb gytundeb'. Nid yw Cymalau Cytundebol Safonol yn hyfyw ychwaith mewn achosion pan nad yw un neu'r ddau sefydliad dan sylw yn gallu sefydlu trefniant sy'n eu rhwymo dan gontract. Yn yr achos hwnnw, dylid darllen y canllawiau ychwanegol isod ar ddulliau trosglwyddo amgen a rhanddirymiadau.

Dull canolog – gweithredu Cymalau Cytundebol Safonol (SCC) ar ran Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y bydd Gwasanaeth Masnachol y Goron Swyddfa'r Cabinet yn ysgrifennu at yr holl gyflenwyr am eu fframweithiau Rhwydweithiau a G-cloud i ofyn iddynt sefydlu cymalau cytundebol safonol. Fel mater o drefn, bydd yr holl Fframweithiau newydd yn cynnwys y cymalau cytundebol safonol hyn sy'n benodol i ddata a hynny fel mater o drefn.

Mae'n bosibl y bydd cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dymuno ystyried dull tebyg. I'r perwyl hwn, gallwch ddefnyddio'r Cymalau Cytundebol Safonol ar ffurf templed sydd yn Atodiad A i'r canllawiau hyn.

Camau i'w cymryd

Bydd y camau canlynol yn eich helpu i ddeall lle y gellir ac y dylid mabwysiadu Cymalau Cytundebol Safonol yn gysylltiedig â chontractau sydd gennych â thrydydd parti yn yr UE:

Cam 1: Crëwch daenlen sy'n nodi pob maes busnes yn eich sefydliad sy'n prosesu data personol (er enghraifft adnoddau dynol, cyllid a gweithrediadau rheng flaen).

Cam 2: Ar gyfer pob maes busnes, amlinellwch y trefniadau allweddol sydd ar waith sy'n cynnwys derbyn data personol gan drydydd parti neu ei anfon at drydydd parti. Pan fo ar gael, nodwch fanylion lleoliad y trydydd parti (y DU neu wlad arall), lleoliad y data (o gofio y gallai hyn fod mewn lleoliad gwahanol i'r trydydd parti), y math o weithgareddau prosesu a'r data personol a rennir. Dylech gynnwys achosion pan gyfnewidir data personol yn rhan o gontract rhwng eich sefydliad chi a darparwr gwasanaeth data, yn ogystal â chontractau pan fo'r trydydd parti yn dibynnu ar



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ddarparwyr gwasanaethau data eraill (h.y. darparwyr gwasanaethau data nad oes gennych drefniadau cytundebol uniongyrchol â nhw).

Cam 3: Adolygwch eich taenlen i nodi trefniadau penodol sy'n cynnwys trosglwyddo data o'r AEE i'r DU ac ym mhob un o'r achosion hynny nodwch y math o drosglwyddiad (e.e. rheolwr i reolwr, rheolwr i brosesydd, prosesydd i reolwr).

Cam 4: Ymgysylltwch â'ch cyfreithwyr masnachol a/neu defnyddiwch [offeryn rhyngweithiol rhad ac am ddim](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i benderfynu pa rai o'r trosglwyddiadau o'r AEE i'r DU a nodir yng Ngham 3 a all elwa ar gymalau cytundebol safonol (h.y. (i) rheolwr yr UE i reolwr y DU; neu (ii) rheolwr yr UE i brosesydd y DU, ond **nid** (iii) prosesydd yr UE i reolwr y DU). Dechreuwch greu cymalau cytundebol safonol i ategu'r trosglwyddiadau hynny gan ddefnyddio'r templed ar gyfer cymalau cytundebol safonol a welir yn Atodiad A i'r canllawiau hyn os dymunir, oni bai bod contractau presennol â'r sefydliadau hyn eisoes yn mabwysiadu cymalau cytundebol safonol neu'n darparu dull o hwyluso defnydd o gymalau cytundebol safonol yn awtomatig yn achos Brexit heb gytundeb. Fel sy'n briodol, dylech gysylltu â phob trydydd parti perthnasol i'w hysbysu am yr angen i fabwysiadu cymalau cytundebol safonol.

Dylech ystyried y cyfyngiadau pwysig canlynol wrth ddefnyddio cymalau cytundebol safonol:

Mae'n rhaid i'r cymalau cytundebol safonol sy'n cael eu mabwysiadu ddilyn un o'r ffurfiau a gymeradwyir gan y Comisiwn Ewropeaidd ("Y Comisiwn"). Ar hyn o bryd mae tri math:

- [Rheolwr i reolwr \(2001\)](#);
- [Rheolwr i reolwr \(2004\)](#); a
- [Rheolwr i brosesydd \(2010\)](#).

Templed ar gyfer y cymalau cytundebol safonol a llythyr eglurhaol

Wedi'i atodi i'r nodyn hwn yn Atodiad A ceir llythyr templed i gyflenwyr ac atodlen contract i'ch cefnogi chi wrth weithredu'r cymalau cytundebol safonol mewn contractau cymwys, gan gynnwys contractau yn ôl y gofyn a chontractau uniongyrchol.

Mae'r atodlen yn nodi Darpariaethau [Rheolwr i Reolwr 2004](#) ac yn defnyddio opsiwn (iii) yng Nghymal II(h) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus (fel yr allforiwr data) gydymffurfio â'r egwyddorion prosesu data a nodir yn Atodlen A i Atodiad A. Cyflawnir hyn yn rhwydd drwy barhau i gydymffurfio â chyfreithiau diogelu data presennol y DU o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Byddai defnyddio opsiwn (i) wedi ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â'r cyfreithiau yn y lleoliad lle mae'r cyflenwr wedi'i leoli, nad ystyriwyd yn briodol gan na fyddai sefydliadau yn gyfarwydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

â chyfreithiau tramor. Byddai Opsiwn (ii) yn berthnasol pe bai'r DU yn sicrhau penderfyniad digonolrwydd yn unig (ond ni ddylai cymalau cytundebol safonol fod yn ofynnol pan fo un wedi'i roi). Fodd bynnag, nid yw hyn ar fin digwydd.

Peidiwch newid unrhyw ran o'r cymalau cytundebol safonol – Mae'n rhaid i'r cymalau gael eu cynnwys heb eu diwygio. Cewch gynnwys cymalau masnachol / materion sy'n gysylltiedig â busnes ychwanegol – ar yr amod nad ydynt yn gwrth-ddweud sylwedd y cymalau cytundebol safonol.

Yn benodol, peidiwch â gwneud newidiadau i unrhyw un o'r cyfeiriadau yn y cymalau cytundebol safonol i'r chyfreithiau diogelu data a oedd yn bodoli cyn y GDPR. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn dweud bod y Comisiwn yn bwriadu diweddarau'r cymalau cytundebol safonol presennol ar gyfer y GDPR, ond hyd nes y caiff y cymalau diwygiedig hynny eu mabwysiadu gellir parhau i ddefnyddio contractau presennol sy'n cynnwys y cymalau cytundebol safonol presennol ar gyfer trosglwyddiadau ac ni ddylid eu haddasu i gynnwys y GDPR.

Beth ddylwn i ei fewnosod i Atodiad B o'r Cymalau Cytundebol Safonol? – Dylid llenwi Atodiad B o'r cymalau cytundebol safonol er mwyn darparu disgrifiad llawn o'r data personol a rennir rhwng y cyflenwr a'r awdurdod contractio o dan y contract. Ceir drafftio'r disgrifiad mewn termau tebyg i'r dull yr argymhellir ei fewnosod mewn contractau cyflenwyr wrth baratoi i gydymffurfio â'r GDPR, yn unol â'r templed "Atodiad A – Rhan 2: Atodlen Prosesu, Data Personol a Thestunau Data" yn PPN 03/17. Os oes disgrifiad o'r gweithgaredd prosesu perthnasol eisoes wedi'i baratoi yn y contract presennol, mae'n bosibl croesgyfeirio hwnnw yn Atodiad B o'r cymalau cytundebol safonol. Mae'n debygol mai'r Cyflenwr fyddai yn y sefyllfa orau i lenwi'r adran hon fel yr allforiwr data gan y bydd yr wybodaeth hon yn llai gweladwy i'r Awdurdod Contractio. Dylech anfon yr atodlen heb ei llofnodi er mwyn gallu sicrhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i nodi yn ddigonol cyn llofnodi'r cymalau cytundebol safonol.

Beth ddylwn i ei wneud os yw'r cyflenwr yn gwrthod llofnodi'r cymalau cytundebol safonol? – Os yw'r cyflenwr yn prosesu data personol yn yr AEE, mae'n bwysig ei atgoffa y bydd ei reoleiddwyr diogelu data yn disgwyl iddo gytuno i'r cymalau cytundebol safonol cyn trosglwyddo unrhyw ddata personol i'r DU ar ôl i'r DU ymadael heb gytundeb. Os na fydd yn gwneud hyn, bydd mewn perygl o dorri'r GDPR. Mae Bwrdd Diogelu Data Ewrop ([EDPB](#)) a [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) wedi cyflwyno canllawiau ar y sefyllfa hon a gallai fod yn ddefnyddiol i chi gyfeirio atynt wrth ymgysylltu â chyflenwyr.

Mae rhai achosion cyfyngedig pan na fyddai'n angenrheidiol o bosibl i gyflenwr gytuno i'r cymalau cytundebol safonol ynghylch trosglwyddo data personol y tu allan i'r AEE – er enghraifft os yw'r cyflenwr wedi'i sefydlu yn y DU, ond y rheolir y trosglwyddo data UE-DU sylfaenol gan drefniant trosglwyddo data o fewn y grŵp



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

sy'n cynnwys y cymalau cytundebol safonol, neu fod gan y grŵp cyflenwi Reolau Rhwymo Corfforaethol. Mae'r rhain yn eithriadau cyfyngedig y dylid eu hasesu'n ofalus.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trefniadau Gweinyddol o dan Erthygl 46 o'r GDPR

Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru wrth ystyried sefydlu trefniadau gweinyddol ar gyfer trosglwyddo data personol o sefydliadau yn yr AEE i awdurdodau neu gyrff cyhoeddus yn y DU pe byddai'r DU yn ymadael â'r UE heb benderfyniad digonolrwydd a phan **nad** yw cymalau cytundebol safonol yn gymwys.

Mae Erthygl 46(3)(b) yn cyfeirio at ddarpariaethau i'w mewnosod i drefniadau gweinyddol rhwng awdurdodau neu gyrff cyhoeddus sy'n cynnwys hawliau testunau data gorfodadwy ac effeithiol" (e.e. memorandwm cyd-ddealltwriaeth neu bolisi).

Mae hyn yn cefnogi trosglwyddiadau rhwng awdurdodau neu gyrff cyhoeddus na allant gytuno i gontract sy'n eu rhwymo'n gyfreithiol â'i gilydd.

Buddion

- Gellir eu teilwra i sefyllfaoedd prosesu awdurdodau neu gyrff cyhoeddus unigol. Er ei bod yn ofynnol i awdurdod goruchwyllo awdurdodi'r trefniadau gweinyddol ymlaen llaw, nid oes gofyniad penodol i'r awdurdod goruchwyllo ymgynghori â Bwrdd Diogelu Data Ewrop (EDPB) cyn awdurdodi darpariaethau i'w mewnosod i drefniadau gweinyddol o dan Erthygl 46(3)(b) (ond gweler y "Cyfyngiadau" isod). Gallai'r broses hon fod yn gyflymach, felly, na'r broses o dan Erthygl 46(3)(a) (cymalau cytundebol addasu), a amlinellir yn y canllawiau 'Dulliau Trosglwyddo Amgen o dan Erthygl 46 o'r GDPR'. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod goruchwyllo hysbysu awdurdodau goruchwyllo eraill yn gyntaf ac mae'n bosibl y bydd yr awdurdodau goruchwyllo eraill hyn yn gofyn i'r mater gael ei ystyried gan yr EDPB.

Cyfyngiadau

- Mae'n rhaid i'r awdurdod goruchwyllo cymwys awdurdodi'r trefniant gweinyddol ymlaen llaw. Nid yw'r GDPR yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i'r awdurdod goruchwyllo ymgynghori â'r EDPB (gweler uchod) ond mae'n ymddangos bod yr EDPB o'r farn y dylent, gan ei fod wedi nodi yn ei ganllawiau ar gyfer ymadael heb gytundeb ar drosglwyddiadau data bod y trefniadau hyn yn destun awdurdodi gan yr awdurdod goruchwyllo gwladol cymwys, yn dilyn barn yr EDPB. Gallai hyn ddylanwadu ar ddull awdurdodau goruchwyllo o gydymffurfio â'r dull cysondeb sy'n ofynnol dan Erthygl 46(4) o'r GDPR. Felly, mae'n bosibl na fydd yn ddichonadwy i fod â threfniant gweinyddol ar waith cyn 31 Hydref 2019. Dylai awdurdodau neu gyrff cyhoeddus ystyried dulliau lliniaru byrdymor gan gynnwys y posibilrwydd o



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ddefnyddio cymalau cytundebol safonol neu ddibynnu ar randdirymiadau, hyd yn oed os mai trefniant gweinyddol yw'r ateb priodol yn y tymor hir.

- Ar gyfer trefniadau rhwng awdurdodau neu gyrff cyhoeddus yn unig y ceir eu defnyddio (h.y. nid yw hwn yn gam diogelu priodol os yw un o'r partïon yn gorff preifat).

Templed ar gyfer trefniant gweinyddol a nodyn eglurhaol

Wedi'i atodi i'r canllawiau hyn yn Atodiad B ceir templed ar gyfer trefniant gweinyddol i'ch cynorthwyo i gytuno ar drefniadau gweinyddol ag awdurdodau cyhoeddus yn yr AEE ar gyfer parhau i drosglwyddo data personol. Darllenwch y nodyn eglurhaol atodedig sy'n disgrifio'r cyngor o ran trafod ac yn ailadrodd y cyfyngiadau y dylid eu hystyried wrth benderfynu ai trefniant gweinyddol yw'r cam lliniaru mwyaf priodol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhanddirymiadau ar gyfer sefyllfaoedd penodol o dan Erthygl 49 o'r GDPR

Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i ddefnyddio rhanddirymiadau i drosglwyddo data personol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) i'r DU o dan Erthygl 49 o'r GDPR pe byddai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, yn absenoldeb penderfyniad digonolrwydd neu gamau diogelu priodol.

Pan nad oes penderfyniad digonolrwydd ar gael, camau diogelu priodol ddylai fod yr opsiwn cyntaf bob tro ar gyfer awdurdodau neu gyrff cyhoeddus sy'n ymgymryd â throsglwyddiadau data personol yn rhwngwladol. Am y rheswm hwn, dylech ystyried cymhwysedd cymalau cytundebol safonol neu ddulliau trosglwyddo amgen o dan Erthygl 46 o'r GDPR i ddechrau – ceir rhagor o fanylion am hyn yn adrannau eraill y canllawiau hyn.

Canllawiau Presennol

Ym mis Mai 2018 cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Data Ewrop (EDPB) [ganllawiau](#) ar y rhanddirymiadau o dan Erthygl 49. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd wedi darparu [dadansoddiad manwl](#) o'r rhanddirymiadau (y cyfeirir atynt fel "eithriadau"). Os ydych yn ystyried defnyddio unrhyw rhanddirymiadau o dan Erthygl 49, gallai fod yn ddefnyddiol ichi gyfeirio at y dolenni hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu:

1. Pwyntiau cyffredinol allweddol i'w hystyried wrth ddefnyddio unrhyw rhanddirymiadau o dan Erthygl 49 o'r GDPR; a
2. Phwyntiau allweddol i'w hystyried ar gyfer pob un o'r rhanddirymiadau yn Erthygl 49.

Sut i Ddefnyddio Rhanddirymiadau

Wrth ddefnyddio rhanddirymiadau o dan Erthygl 49 o'r GDPR gallai fod yn ddefnyddiol cofio:

- Mai barn yr EDPB yw y dylid ymdrin yn llwyr â rhanddirymiadau fel eithriadau i'r rheol gyffredinol sy'n gwahardd trosglwyddiadau rhwngwladol yn absenoldeb penderfyniad digonolrwydd neu gamau diogelu priodol; mewn geiriau eraill dylid dibynnu arnynt mewn sefyllfaoedd penodol yn unig ac nid fel mater o drefn.
- Na ddylai'r defnydd o rhanddirymiadau byth arwain at sefyllfa pan ellid torri hawliau sylfaenol o dan y GDPR.
- Bod y rhanddirymiadau a restrir o dan Erthygl 49(1) o'r GDPR yn amodol ar Erthygl 49 yn ei chyfanrwydd a hefyd ar y dehongliadau a awgrymir yn



natganiadau 111-115 GDPR (er nad oes gan y datganiadau hyn effaith gyfreithiol). Dylech ystyried Erthygl 49 yn ei chyfanrwydd wrth ystyried a allwch ddibynnu ar randdirymiad penodol.

- Os nad yw'r un o'r rhanddirymiadau yn Erthyglau 49(1)(a)-(g) yn berthnasol, mae Erthygl 49(1) is-baragraff 2 yn caniatáu ar gyfer dibynnu ar drosglwyddo ad-hoc mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, yn seiliedig ar “fuddiannau dilys anorchfygol” y rheolwr.
- Bod y rhanddirymiadau sydd ar gael er budd y parti sy'n **trosglwyddo**'r data personol (h.y. allforiwr y data). Y sefydliad hwnnw (yn hytrach na derbynnydd y data / mewnforiwr y data) sy'n gorfod bodloni'r gofynion perthnasol yn Erthygl 49. Er enghraifft, **ni all awdurdodau cyhoeddus ddibynnu** ar y tri rhanddirymiad cyntaf yn Erthygl 49(1) (gweler Erthygl 49(3)). Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn atal corff preifat yn yr AEE rhag dibynnu ar y rhanddirymiadau hyn i drosglwyddo data personol i awdurdod neu gorff cyhoeddus yn y DU.
- Pan fo testun data yn yr AEE yn trosglwyddo ei ddata personol ei hun yn uniongyrchol i sefydliad y tu allan i'r AEE, nid yw hwn yn drosglwyddiad y cyfyngir arno ac nid oes angen unrhyw randdirymiad (na cham diogelu priodol).

Defnyddio rhanddirymiadau unigol yn Erthygl 49 o'r GDPR

Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o sut y ceir defnyddio'r rhanddirymiadau yn ymarferol. Sylwer, er hynny, y gall fod gan aelod-wladwriaethau eu dehongliadau eu hunain o'r egwyddorion hyn. Felly dylid gwirio'r sefyllfa leol bob amser cyn dibynnu ar randdirymiad penodol.

Rhanddirymiad	Dehongliad
Erthygl 49(1)(a) o'r GDPR: Trosglwyddiadau yn seiliedig ar gydsyniad pendant	• Rhaid cael cydsyniad pendant gan destun y data ar gyfer trosglwyddiad cyfyngedig penodol / cyfres o drosglwyddiadau mewn llaw. Ni fydd cydsyniad cyffredinol ar gyfer trosglwyddiadau cyfyngedig yn ddigonol. • Mae cydsyniad pendant yn drothwy uwch na chydsyniad safonol o dan y GDPR. ◦ Diffinnir cydsyniad yn Erthygl 4(11). Mae'n rhaid rhoi cydsyniad yn rhwydd, yn benodol, yn wybodus a rhaid ei fod yn cyd-fynd â datganiad diamwys o ddymuniadau testun y data, ganddo ef neu hi, mewn datganiad neu gam cadarnhau clir. ◦ Mae'r trothwy ar gyfer cydsyniad pendant yn uwch na hwn ac mae angen mwy na cham cadarnhau clir i gadarnhau ei gymeradwyaeth – fel arfer trwy ddangos rhyw fath o gadarnhad mewn geiriau. • Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen datganiad ysgrifenedig ar gydsyniad pendant yn



	esbonio'r trosglwyddiad, wedi'i gefnogi gan ddatganiad pendant o gymeradwyaeth gan yr unigolyn – er enghraifft llofnod neu gadarnhad ysgrifenedig. Ni fydd blychau wedi'u ticio ymlaen llaw yn ddilys. • Dylai'r datganiad hysbysu testun y data am y math o drosglwyddiad, gan gynnwys y risgiau posibl sy'n codi o'r trosglwyddiad (gweler canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel yr uchod). • Dylai testun y data allu tynnu ei gydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, ac yn dilyn hynny byddai'n ofynnol i'r sefydliad atal y trosglwyddiad. • Ni all awdurdodau cyhoeddus ddibynnu ar y rhanddirymiad wrth arfer eu pwerau cyhoeddus fel y nodir yn Erthygl 49(3).
Erthygl 49(1)(b) o'r GDPR: Trosglwyddiadau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu contract rhwng testun y data a rheolwr y data	• Gall hyn gynnwys gweithredu mesurau cyn-contract ar gais testun y data. • Mae Datganiad 111 yn awgrymu y ceir trosglwyddo data sy'n dibynnu ar y rhanddirymiad hwn dim ond pan fo'r trosglwyddiad yn achlysurol. ◦ Caiff y trosglwyddiadau ddigwydd mwy nag unwaith, ond nid yn rheolaidd. ◦ Mae'r EDPB yn rhannu'r farn hon ac mae'n nodi y gellir pennu a yw trosglwyddiad yn achlysurol ar sail achos yn unig. Gellid dehongli achlysurol fel rhywbeth sy'n digwydd y tu allan i gwrs arferol camau gweithredu, er enghraifft, o dan amgylchiadau ar hap, anhysbys ac o fewn cyfnodau amser anghyson. Ni fyddai fframwaith presennol o gydweithredu sefydlog yn cynnwys trosglwyddo data systematig ac ailadroddus rhwng rheolwr y data a derbynnydd y data personol yn cael ei ystyried yn achlysurol. • Mae'n rhaid i'r trosglwyddiad fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r contract. ◦ Mae canllawiau'r EDPB a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn amlinellu trothwy uchel ar gyfer y prawf angenrheidrwydd hwn. ◦ Bodlonir hyn fel arfer dim ond os na ellir cyflawni prif ddiben(ion) y contract neu brif ddiben y camau angenrheidiol i gytuno ar y contract heb weithredu'r trosglwyddiad cyfyngedig. ◦ Mae'n ofynnol bod cysylltiad agos a sylweddol rhwng y trosglwyddo data a dibenion y contract – nid yw'r ffaith y byddai'r llif data dymunol yn fwy cost



	effeithiol neu'n fwy effeithlon yn golygu ei fod yn angenrheidiol. • Dim ond data personol sy'n hanfodol i weithredu'r contract y dylid ei drosglwyddo. • Ni all awdurdodau cyhoeddus ddibynnu ar y rhanddirymiad wrth arfer eu pwerau cyhoeddus fel y nodir yn Erthygl 49(3).
Erthygl 49(1)(c) o'r GDPR: Trosglwyddiadau sy'n angenrheidiol i gwblhau neu weithredu contract er budd testun y data	• Mae'r rhanddirymiad hwn yn dilyn y rhanddirymiad uchod yn agos ac felly mae'n destun yr un cyfyngiadau o ran defnydd achlysurol a pha mor angenrheidiol yw'r trosglwyddiad. Yn yr achos hwn, mae'n angenrheidiol diwallu angen sydd o fudd i destun y data. • Yn wahanol i'r rhanddirymiad blaenorol, sylwer nad yw'r eithriad hwn yn caniatáu ar gyfer trosglwyddiadau sy'n digwydd <i>cyn</i> sefydlu'r contract perthnasol. • Ni all awdurdodau cyhoeddus ddibynnu ar y rhanddirymiad wrth arfer eu pwerau cyhoeddus fel y nodir yn Erthygl 49(3).
Erthygl 49(1)(d) o'r GDPR: Trosglwyddiadau sy'n angenrheidiol am resymau pwysig o ran budd y cyhoedd	• Mae'n ofynnol i'r trosglwyddiad fod yn angenrheidiol am resymau pwysig o ran budd y cyhoedd. • Mae Erthygl 49(4) yn nodi ei bod yn ofynnol i fudd y cyhoedd y dibynnir arno gael ei gydnabod yng nghyfraith yr UE, neu gyfraith aelod-wladwriaeth y rheolwr. Byddai dehongliad cul o'r meini prawf hyn yn gofyn, fel sail, am rywbeth a gydnabyddir yn amlwg yn fudd y cyhoedd mewn deddfwriaeth senedd wladol. Gall dehongliad ehangach ystyried, fel sail, rywbeth a gydnabyddir yn fudd y cyhoedd mewn canllawiau statudol/awdurdodol neu godau ymarfer neu mewn cyfraith achosion yr UE neu aelod-wladwriaeth. • Wrth ystyried yr hyn sydd er budd y cyhoedd, mae'n bwysig ei ystyried o safbwynt yr UE neu aelod-wladwriaeth y rheolwr. ○ Yr asesiad perthnasol yw a yw'r trosglwyddo er budd y cyhoedd yn y wlad berthnasol sy'n allforio o'r UE, yn hytrach na buddiannau y wlad trydydd parti sy'n derbyn y data (hyd yn oed os yw'r defnydd arfaethedig yn y drydedd wlad at ddiben a gydnabyddir yn fudd y cyhoedd yn yr UE). ○ Sylwer y gellid yn wir bodloni budd y cyhoedd os yw'r trosglwyddo data yn gysylltiedig â threfniant lle ceir elfen o gyfatebiaeth a chydweithrediad rhyngwladol (e.e. confensiwn neu gytundeb



	rhyngwladol sy'n cydnabod amcanion penodol ac sy'n darparu ar gyfer cydweithrediad rhyngwladol). • Mae Datganiad 112 yn rhoi amryw o enghreifftiau o'r hyn y gallai'r term budd y cyhoedd ei olygu, gan gynnwys materion nawdd cymdeithasol, neu iechyd y cyhoedd. • Nid yw'r EDPB a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn disgwyl i drosglwyddiadau o dan y rhanddirymiad hwn gael eu defnyddio ar gyfer trosglwyddiadau systematig neu ar raddfa fawr.
Erthygl 49(1)(e) o'r GDPR: Trosglwyddiadau sy'n angenrheidiol er mwyn sefydlu, gweithredu neu amddiffyn hawliad cyfreithiol	• Mae Datganiad 111 yn awgrymu y gellir dibynnu ar y rhanddirymiad hwn ar gyfer trosglwyddiadau achlysurol yn unig – gall ddigwydd mwy nag unwaith, ond nid yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu ar gyfer dehongliad eithaf eang o hawliad cyfreithiol, boed hynny'n weithdrefn farnwrol neu'n weithdrefn weinyddol neu unrhyw weithdrefn y tu allan i'r llys, gan gynnwys gweithdrefnau gerbron cyrff rheoleiddio. • Barn yr EDPB yw ei bod yn ofynnol i'r weithdrefn berthnasol fod â sail mewn cyfraith ac yn broses a ddiffinnir gan y gyfraith. • Mae'n rhaid bod disgwyliad gwirioneddol o ddwyn achos neu wneud hawliad, h.y. ni ellir dibynnu arno os mai dim ond posibilrwydd bach sydd o allu dwyn achos llys neu wneud hawliad yn y dyfodol. • Dylai'r trosglwyddiad fod yn gyfyngedig i ddata personol sy'n angenrheidiol at y diben – mae'n ofynnol bod cysylltiad agos rhwng yr angen i drosglwyddo a'r hawliad cyfreithiol perthnasol.
Erthygl 49(1)(f) o'r GDPR: Trosglwyddiadau sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hollbwysig testunau data, neu bobl eraill	• Mae'r EDPB o'r farn bod y rhanddirymiad hwn yn berthnasol pan fo bygythiad uniongyrchol gwirioneddol i unigolyn yn unig (e.e. pan fo testun data yn anymwybodol ac angen gofal meddygol brys). • Gellir ei ddefnyddio dim ond pan nad yw testun y data yn gallu rhoi ei gydsyniad yn gorfforol ac yn gyfreithiol. • Mae'r EDPB o'r farn y gall anallu cyfreithiol ymestyn i achosion sy'n cynnwys pobl ifanc o dan oed (ar yr amod nad yw hyn yn amharu ar ddulliau cynrychioli cenedlaethol). • Gall y rhanddirymiad gefnogi trosglwyddiadau ar ôl dinistr naturiol at ddiben achub ac adfer oherwydd ystyrir nad yw testunau data yn gallu cydsynio. • Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn mynegi'r rhanddirymiad hwn yng nghyd-destun argyfyngau meddygol yn unig.



	• Ni ellir dibynnu ar y rhanddirymiad i gyflawni ymchwil meddygol cyffredinol.
Erthygl 49(1)(g) o'r GDPR: Trosglwyddiadau a wneir o gofrestr gyhoeddus	• Mae'r rhanddirymiad yn berthnasol dim ond i'r cofrestrau hynny a sefydlir o dan gyfraith yr UE neu gyfraith aelod-wladwriaeth i roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Dylid gwirio rheolau lleol y wlad gan y bydd y mathau o gofrestrau sy'n gyhoeddus yn amrywio rhwng yr aelod-wladwriaethau • Nid yw'r ffaith bod cofrestr yn gyhoeddus yn golygu y ceir prosesu'r data sydd ynddi yn rhydd. Mewn llawer o achosion pan fo cofrestr wedi'i sefydlu mewn cyfraith at ddiben penodol, mae'n bosibl y bydd hawl y cyhoedd i'w gweld wedi'i gyfyngu i'r rheini sy'n gymwys i ddefnyddio'r data at ddiben cyfiawn penodol. Cyn echdynnu data o gofrestr gyhoeddus, dylid cynnal asesiad risg bob amser i ddilysu'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu. Dylid cynnal asesiad o unrhyw effaith andwyol ar hawliau'r unigolion y trosglwyddir eu data personol yn sgil eu prosesu hefyd. Dylai hyn gynnwys ystyried y risg o gadw data personol mewn gwlad sydd y tu allan i'r AEE. • Nid yw rhanddirymiad hwn yn berthnasol i gofrestrau a weithredir gan gwmnïau preifat – e.e. cronfeydd data gwirio credyd. • Mae trosglwyddiad o dan y rhanddirymiad hwn yn gyfyngedig i achosion ad hoc yn unig o echdynnu data - ni ellir dibynnu ar y rhanddirymiad i gefnogi lawrlwytho data personol yn ei gyfanrwydd neu gategorïau cyfan o ddata personol sydd wedi eu cynnwys yn y gofrestr.
Erthygl 49(1) Is-baragraff 2 o'r GDPR: Trosglwyddiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer buddiannau cyfiawn anorchfygol	• Mae'n rhaid bod y rheolwr yn gallu dangos ei fod wedi ystyried y camau diogelu priodol a'r rhanddirymiadau eraill o dan Erthygl 49(1) ac wedi penderfynu na fyddai'n bosibl eu defnyddio ar gyfer y trosglwyddiad cyfyngedig. Golyga hyn y dylid defnyddio'r rhanddirymiad o dan amgylchiadau eithriadol yn unig. • Mae canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn amlinellu y dylai rheolwyr fodloni eu hunain o'r uchod hyd yn oed os yw'n cynnwys buddsoddiad sylweddol. • Ni ellir dibynnu ar y rhanddirymiad ar gyfer trosglwyddiadau rheolaidd. Caiff y trosglwyddiad ddigwydd mwy nag unwaith ond nid yn rheolaidd. • Ni chaiff awdurdodau cyhoeddus ddibynnu ar y rhanddirymiad wrth arfer eu pwerau cyhoeddus fel y nodir yn Erthygl 49(3).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

	• Mae'r buddiannau cyfiawn anorchfygol yn drothwy uwch na "buddiannau cyfiawn" o dan Erthygl 6(1)(f). • Mae'n ofynnol i fuddiannau cyfiawn anorchfygol y rheolwr fod yn drech na hawliau a rhyddid unigolion. Dylid cofnodi'r asesiad hwn a'r camau diogelu addas fel y nodir yn Erthyglau 49(6) a 30(1)(e). • Mae'n ofynnol i'r data personol fod yn gysylltiedig â nifer cyfyngedig o unigolion yn unig. Nid oes trothwy absoliwt ar gyfer hyn. Dylai nifer yr unigolion dan sylw fod yn rhan o'r ymarfer cydbwysu uchod. • Mae'n ofynnol i'r awdurdod goruchwyllo gael gwybod am y trosglwyddiad (ond nid oes angen iddo gael ei awdurdodi). • Mae'n rhaid i destunau'r data gael gwybod am y trosglwyddiad a'r buddiannau cyfiawn anorchfygol dan sylw. • Mae Datganiad 113 yn nodi, pan geisir ymchwil gwyddonol neu hanesyddol, y dylid ystyried y nod o gynyddu gwybodaeth yn y rhanddirymiad hwn.
--	---



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithio gyda phroseswyr data sydd wedi'u lleoli yn yr AEE yn achos Brexit heb gytundeb

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor i gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n pryderu am y risg o amharu ar lif data personol gan broseswyr sydd wedi'u lleoli yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn achos Brexit heb gytundeb. Mae'r canllawiau hyn yn darparu ein hasesiad o'r risgiau sy'n amharu ar lifau data rhwng proseswyr data yn yr AEE a rheolwyr data yn y DU, a throsolwg o'r camau gweithredu a gymerwyd gennym yn ganolog i liniaru'r risg.

Llifau data o broseswyr yn yr AEE i sefydliadau yn y DU

Ceir ansicrwydd cyfreithiol ynghylch trosglwyddo data personol rhwng proseswyr data sydd wedi'u lleoli yn yr AEE a sefydliadau yn y DU, gan gynnwys adrannau'r Llywodraeth, os digwydd Brexit heb gytundeb. Nid oes unrhyw fecanwaith cymeradwy yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer trosglwyddiadau niferus.

Nid yw'r Bwrdd Diogelu Data Ewropeaidd wedi penderfynu eto, yn eu barn nhw, a yw'r llifau data hyn wedi eu cyfyngu gan drosglwyddiadau rhwngwladol o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr UE. Mae'n annhebygol y caiff y mater ei ddatrys cyn 31 Hydref.

Effaith Brexit heb gytundeb ar drosglwyddo data o broseswyr yn yr AEE

Rydym yn asesu mai tebygolrwydd isel iawn sydd o amharu'n sylweddol ar drosglwyddiadau data personol o broseswyr yn yr AEE i reolwyr yn y DU.

- Mae proseswyr data yn yr AEE yn annhebygol o ystyried bod y risg reoleiddiol yn rhy uchel a rhoi'r gorau i anfon data i'r DU. Nid yw'r mater hwn yn ymwneud yn neilltuol â Brexit ac mae wedi bod yn risg gyfredol a pharhaus dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae gan awdurdodau diogelu data yn Iwerddon a'r Iseldiroedd, lle mae'r rhan fwyaf o broseswyr data wedi eu lleoli, agwedd gymesur tuag at reoleiddio sy'n seiliedig ar risg, yn debyg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Hyd yn oed pan fo awdurdodau diogelu data yn llai pragmatig, mae'r cwmnïau prosesu data mawr wedi hen arfer ag ymdrin â nhw a rheoli'r risg o ran cydymffurfiaeth.

- Gall yr EDPB ddatgan bod angen camau diogelu ychwanegol i drosglwyddo'r data hyn: mae'r sefyllfa hon yn fwy tebygol na'r pwynt bwled cyntaf, er ei bod yn bosibl bod amseriad unrhyw benderfyniad rai misoedd i ffwrdd. Disgwyliwn i'r EDPB reoli unrhyw newid er mwyn caniatáu cyfnod pontio trefnus, ac felly, peidio ag amharu ar lifau data presennol.

- Gall awdurdod diogelu data gael cwyn gan unigolyn neu grŵp ymgyrchu sy'n arwain at gamau gorfodi: gall camau gorfodi sylweddol o'r math hwn gymryd amser



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

hir i'w prosesu gyda phosibilrwydd y bydd gwaith ymglyfreitha am gyfnod hir. Gallech gymryd camau lliniaru ychwanegol yn ystod y broses ymglyfreitha.

Y dull canolog

Er mwyn lliniaru'r risg hon, cymerwyd y camau canlynol ar lefel y DU.

Trafodaethau â chyflenwyr allweddol:

Bu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet i lwyddo i sicrhau llythyrau sicrwydd i'r llywodraeth gan y 19 o gyflenwyr strategol mwyaf hanfodol, o safbwynt data personol, y byddent yn parhau i ddarparu gwasanaethau yn achos Brexit heb gytundeb. Nod y llythyr oedd codi ymwybyddiaeth y cyflenwyr o'r posibilrwydd yr amherir ar lifau data mewn sefyllfa lle mae'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb, gan amlinellu set o gwestiynau cynllunio wrth gefn i'w hystyried.

Roedd pob un o'r 19 cwmni un ai wedi llofnodi'r llythyr sicrwydd neu wedi darparu eu llythyr sicrwydd eu hunain.

Darparwyr gwasanaeth wedi eu blaenoriaethu ar gyfer Swyddfa'r Cabinet

Accenture

Atos

Amazon Web Services

BAE

BT

Capgemini

CGI

DXC

Fujitsu

Google

IBM

Microsoft

Motorola

Oracle

Salesforce

Sodexo

Sopra Steria

Virgin Media

Vodafone

Mae'r sicrwydd a roddir gan gyflenwyr yn ymwneud â phob adran llywodraeth ganolog ac, mewn rhai achosion, yn cynnwys Cyrff 'Hyd Braich'. Er mwyn canfod a yw'r sicrwydd hwn yn ymdrin â Chyrff 'Hyd Braich', bydd angen i'r Corff 'Hyd Braich' fodloni ei hun y gellir ei ddiffinio fel 'awdurdod cyhoeddus' yn y DU. Yng nghydestun y GDPR, diffinnir awdurdodau cyhoeddus yn adran 7 o Ddeddf Diogelu Data



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

2018 ac mae'n cynnwys yn fras gyrff sy'n destun Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (er bod rhai eithriadau).

Y nodweddion sy'n awgrymu y gallai Corff 'Hyd Braich' fod yn awdurdod cyhoeddus:

- os yw ei swyddogaeth yn cymhathu llywodraeth yn agos neu'n cymryd ei lle
- os yw'n gysylltiedig â'r llywodraeth neu y gellid disgrifio ei swyddogaeth fel un llywodraethol
- os yw'n darparu gwasanaeth cyhoeddus
- os yw'n cael ei reoleiddio, ei oruchwylio a/neu ei arolygu gan y llywodraeth
- os yw'n destun adolygiad barnwrol neu'n atebol yn gyhoeddus am ei weithredoedd
- os oes ganddo amcanion elusennol
- os oes ganddo bwerau statudol uwch
- os yw ei hawliau a'i gyfrifoldebau i'w gweld mewn cyfraith gyhoeddus yn hytrach na chyfraith breifat.

Camau gweithredu

Nodi a blaenoriaethu data personol hanfodol ac asesu risgiau:

Nodi a blaenoriaethu'r setiau data ar ddata personol sy'n hanfodol i'ch gwaith. Asesu'r risgiau i barhad y broses o ddarparu gwasanaethau hanfodol os amherir ar y llif data personol hwn i'ch adran. Bydd hyn yn llywio penderfyniadau ynghylch pa gamau lliniaru y dylid eu cymryd, os o gwbl, os ystyrir bod y risg yr amherir ar lif data personol yn rhy uchel.

Ar ôl nodi a blaenoriaethu data personol hanfodol fel yr uchod,

Ystyriwch a ydych wedi eich cynnwys yn y sicrwydd canolog:

Os ydych wedi eich cynnwys yn y sicrwydd uchod, dylech ystyried a yw'r cam lliniaru hwn yn ddigon ar gyfer eich asesiad risg eich hun.

Os nad ydych wedi eich cynnwys neu os oes gennych setiau data personol *hanfodol* gyda darparwyr heblaw y rhai a restrwyd, ystyriwch gysylltu â'r cyflenwr i weld pa sicrwydd y maent yn barod i'w gynnig ynghylch parhau â'r gwasanaeth os yw'r DU yn dod yn drydedd wlad annigonol.

Cwestiynau Cyffredin

A yw'r sicrwydd hwn yn rhwymo mewn cyfraith?

- Nid yw'r sicrwydd hwn yn rhwymo mewn cyfraith. Ni ellir rhoi sicrwydd sy'n rhwymo mewn cyfraith gan fod y llifau personol yn gweithredu mewn maes lle ceir amwysedd rheoliadol sy'n rhagflaenu ac yn mynd y tu hwnt i Brexit.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

A fyddwch yn anfon rhagor o lythyrau at y cyflenwyr hyn?

- Nid oedd cyfyngiad amser ar y sicrwydd – roedd sicrwydd y byddai llifau data yn parhau i lifo pe byddai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cael y sicrwydd hwn ynghyd â chanllawiau ategol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Sut y gwnaethoch chi nodi'r cyflenwyr hyn?

- Gweithiodd Swyddfa'r Cabinet a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda'i gilydd i nodi cyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau hanfodol neu a ddefnyddir gan lawer iawn o sefydliadau'r sector cyhoeddus – roedd y rhai a nodwyd un ai yn cynrychioli dros £100 miliwn o wariant y Llywodraeth a/neu'n darparu nwyddau neu wasanaethau i lawer o adrannau'r Llywodraeth.

A yw'r sicrwydd hwn yn ymestyn i is-gwmnïau'r cyflenwyr?

- Bwriad yr ymrwymiadau a wnaed yn y llythyr yw cwmpasu gweithgareddau'r cyflenwr strategol perthnasol ar sail sefydliad/grŵp cyfan.
- Er nad oes cyfeiriad pendant at gysylltiadau ac yn y blaen yn y llythyr ei hun, rydym yn disgwyl i'r cwmpas gael ei ddeall yn glir fel un sy'n ymestyn ar draws sefydliad ehangach y cyflenwyr.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mynediad i systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data'r UE yn achos Brexit heb gytundeb

Nod y canllawiau hyn yw helpu cyrff sector cyhoeddus Cymru i roi sylw i ddeddfwriaeth diogelu data wrth ystyried dewisiadau er mwyn lliniaru colled mynediad i systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data'r UE yn achos Brexit heb gytundeb.

Trosglwyddo data personol yn achos Brexit heb gytundeb

Bydd y DU, dros gyfnod pontio, yn cydnabod yr AEE fel pe bai wedi bod yn destun penderfyniad digonolrwydd cadarnhaol gan y DU ar adeg yr ymadael mewn sefyllfa heb gytundeb. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gall data personol barhau i lifo'n rhydd **o'r DU i'r AEE**.

Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl y bydd y Comisiwn Ewropeaidd wedi gwneud penderfyniad digonolrwydd data ynghylch y DU ar adeg yr ymadael ym mis Hydref 2019. At ddibenion GDPR yr UE, felly, caiff y DU ei thrin fel trydedd wlad heb benderfyniad digonolrwydd.

Cyfyngir felly ar drosglwyddo data personol **o'r AEE i'r DU** oni bai bod camau diogelu priodol ar waith, neu fod un o'r eithriadau statudol (a elwir yn rhannu'r data ar gyfer sefyllfaoedd penodol) yn berthnasol i'r trosglwyddiad. [Mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau rhwngwladol](#), gan gynnwys rhestr o'r camau diogelu priodol, ar gael gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mynediad i systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data'r UE

At ddibenion y canllawiau hyn, diffinnir 'systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data yr UE' fel cronfeydd data neu seilwaith neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â data a ddelir gan sefydliad yn yr AEE y mae gan eich sefydliad fynediad iddo ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y caiff eich mynediad ei atal o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r AEE.

Agweddau diogelu data ar fynediad i systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data'r UE

Pan fo cyfraith diogelu data yn un o'r rhesymau, byddwch yn colli mynediad: Os yw'r cyfyngiadau ar drosglwyddo data personol o'r AEE i'r DU yn un o'r ffactorau a fydd yn cyfyngu ar fynediad i systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data'r UE ar ôl gadael yr UE, dylai eich adran (gan gynnwys y swyddogion diogelu data a chyfreithwyr adrannol) ystyried gweithredu mesurau diogelu priodol. Gellir dod o hyd i [ganllawiau ar gamau diogelu priodol y GDPR](#) a [mesurau diogelu sy'n briodol o ran LED](#) ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac yn y canllawiau uchod ar



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ddefnyddio Cymalau Cytundebol Safonol i gael gafael ar ddata o'r UE pe byddai Brexit heb gytundeb yn digwydd, Cytundebau Gweinyddol o dan Erthygl 46 o'r GDPR, a Dulliau Trosglwyddo Amgen o dan Erthygl 46 o'r GDPR.

Pan fydd mynediad yn cael ei atal gan ffactorau heblaw cydymffurfio â'r gyfraith diogelu data: Os nad yw'n bosibl cael mynediad parhaus i systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data'r UE oherwydd ffactorau cyfreithiol neu ffactorau eraill sydd y tu hwnt i ddiogelu data a bod eich sefydliad yn ystyried ffyrdd eraill o gadw'r data, yna byddwch yn dal yn dymuno sicrhau eich bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data gan ei bod yn berthnasol i'r prosesu penodol sydd dan sylw.

Achos Enghreifftiol 1

Negodi cytundeb â sefydliad yr UE i barhau i gael mynediad i systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data

Mewn rhai achosion, gallai sefydlu cytundeb i gynnal perthynas ffurfiol â sefydliad yr UE ar ôl gadael yr UE ganiatáu mynediad parhaus i systemau, rhwydweithiau a chronfeydd data yr UE. Os yw'r gronfa ddata hon yn cynnwys data personol, dylai eich adran (mewn ymgynghoriad â chyfreithwyr a'r swyddog diogelu data) darllen y canllawiau sy'n nodi [mesurau diogelu priodol](#) i'w hystyried. Er enghraifft:

- Os ydych yn llwyddo i wneud contract gyda sefydliad yr UE sy'n dal y gronfa ddata, cyfeiriwch at ganllawiau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar Gymalau Cytundebol Safonol.
- Os nad ydych chi, neu reolwr y gronfa ddata yn yr AEE, yn llwyddo gwneud contract, mae dewisiadau eraill ar gael. Gweler canllawiau ar wahân yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar Drefniadau Gweinyddol o dan Erthygl 46 o'r GDPR, Cytundebau Gweinyddol o dan Erthygl 46 o'r GDPR ac ar Randdirymiadau ar gyfer Sefyllfaoedd Penodol o dan Erthygl 49 o'r GDPR.

Achos Enghreifftiol 2

Pan na fydd cytundeb yn bosibl

Os nad yw eich sefydliad mewn sefyllfa i gael mynediad parhaus i system, rhwydwaith neu gronfa ddata'r UE a'ch bod yn ystyried dewisiadau eraill, dylech gysylltu â'ch swyddog diogelu data a'ch cyfreithwyr yn gyntaf er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i gydymffurfio â'r gyfraith diogelu data.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Mae cyrff y sector cyhoeddus yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol dros eu hasesiad o ran colli mynediad, rheoli data a lliniaru risg.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd cyrff y sector cyhoeddus yn dewis cydnabod a derbyn yr effaith heb ei lliniaru neu eu bod yn gallu lliniaru drwy gamau gweithredu eraill. Mewn rhai achosion ar wahân, efallai y bydd angen copïo neu ddychwelyd data (sef penderfyniad i'w wneud ar broffil risg y cyrff eu hunain) er mwyn ad-drefnu system neu ddatblygu system arall.

Mae'r Adran Ymadael â'r EU (DExEU) a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wedi cyhoeddi canllawiau i reoleiddwyr hefyd ar roi cynlluniau wrth gefn ar waith mewn sefyllfa o Brexit heb gytundeb er mwyn parhau i gael gafael ar ddata rheoleiddio sydd ar gael i reoleiddwyr y DU ar hyn o bryd ar ffurf cronfa ddata yr UE neu ar weinydd yr UE.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cydymffurfiaeth diogelu data ar gyfer Brexit heb gytundeb

Mae'r canllawiau hyn yn ystyried materion cydymffurfio o ran diogelu data mewn sefyllfa heb gytundeb **ac eithrio** mewn cysylltiad â'r effaith ar drosglwyddiadau rhyngwladol a drafodir mewn adrannau eraill o'r canllawiau hyn.

Y gyfraith diogelu data ar ôl Brexit

Pan fydd y DU yn gadael yr UE, caiff GDPR yr UE ei fabwysiadu yng nghyfraith y DU yn ôl adran 3 o Ddeddf Ymadael yr UE 2018 (**EUWA 2018**) a Rheoliadau Diogelu Data, Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Diwygiadau etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (**Gweithredu Rheoliadau**). Bydd angen i sefydliadau sydd wedi eu lleoli yn y DU gydymffurfio â'r fersiwn hon o'r GDPR (**GDPR y DU**) wrth brosesu data personol.

Mae hyn yn golygu, ar ôl Brexit, na fydd unrhyw newid ar unwaith i safonau diogelu data'r DU o dan GDPR newydd y DU.

Mewn rhai amgylchiadau, bydd hefyd yn ofynnol i sefydliadau gydymffurfio â GDPR yr UE – wrth brosesu data mewn cysylltiad â phreswylwyr yr AEE, er enghraifft. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio pryd y gall GDPR yr UE fod yn berthnasol ac yn amlygu rhai o'r camau ychwanegol sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn gyfreithiol gyffelyb hon.

Sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR y DU wrth wneud unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â data mewn sefyllfa heb gytundeb

Efallai y bydd sefydliadau yn ystyried gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff data eu prosesu yn rhan o'u cynlluniau ar gyfer Brexit heb gytundeb, er enghraifft, drwy fabwysiadu prosesau gweithredu newydd neu wneud newidiadau i'r seilwaith dechnoleg bresennol. Gall effaith hyn olygu y bydd sefydliadau yn prosesu data personol mewn ffordd wahanol, neu'n cadw data mewn lleoliad gwahanol.

Mae'n bwysig edrych yn gyfannol ar y GDPR a sicrhau bod unrhyw gamau cydymffurfio yn cael eu nodi a'u rhoi ar waith wrth gynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb.

Mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau yn y meysydd canlynol:

- Sicrhau nad yw'r newidiadau yn effeithio ar y gallu i reoli hawliau testunau data (gall hyn fod yn broblem, er enghraifft, os yw'r sefydliad yn gwneud newidiadau i'r darparwr gwasanaethau data);
- Sicrhau bod testunau data yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i weithgareddau prosesu, a sicrhau cydsyniadau priodol, pan fo hynny'n berthnasol;
- Diweddarau dogfennaeth, gan gynnwys:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Cofnodion gweithgareddau prosesu: Mae Erthygl 30 o'r GDPR y DU yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gadw cofnod o'u gweithgareddau prosesu. Efallai y bydd angen adolygu'r cofnod er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn gweithgareddau prosesu a wnaed o ganlyniad i Brexit, gan gynnwys cofnodi trosglwyddiadau i wledydd yr AEE fel trosglwyddiadau rhyngwladol.
- Hysbysiadau preifatrwydd: mae Erthyglau 13 a 14 o GDPR y DU yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddarparu gwybodaeth am breifatrwydd i destunau data. Er enghraifft, mae Erthygl 13(1)(f) o GDPR y DU yn creu rhwymedigaeth i hysbysu testunau data am drosglwyddiadau i drydedd wlad, a fydd yn cynnwys gwledydd yr AEE pan fydd y DU wedi gadael yr UE. Efallai y bydd angen i sefydliadau adolygu cyfeiriadau at y seiliau neu'r amodau cyfreithlon ar gyfer prosesu os ydynt yn cyfeirio at "gyfraith yr Undeb" neu derminoleg arall y bydd Brexit yn effeithio arni.
- Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynghori efallai y bydd angen adolygu asesiadau presennol (er enghraifft, yng nghyd-destun trosglwyddiadau rhyngwladol a fydd yn mynd yn "gyfyngedig" ar y dyddiad ymadael);
- Diweddaru contractau a chytundebau eraill sy'n ymwneud â'r gweithgaredd prosesu. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddaru contractau â rheolwyr neu broseswyr trydydd parti i adlewyrchu newidiadau yn y gweithgaredd prosesu sy'n digwydd, lleoliad y data, cyfeiriadau at gyfreithiau diogelu data perthnasol, neu gyfrifoldebau rheoleiddio eraill sy'n deillio o Brexit. Gallai enghreifftiau o newidiadau technegol y mae eu hangen gynnwys newidiadau i'r diffiniad o "ddeddfau diogelu data" fel ei fod yn cynnwys cyfeiriad penodol at GDPR y DU; neu newidiadau i'r darpariaethau trosglwyddo rhyngwladol. Dylai sefydliadau fabwysiadu dull cymesur ar sail risg o fynd ati i ddiweddaru contractau (er enghraifft mewn sefyllfa o orfod gwneud newidiadau cymharol fach i lawer o contractau). Gallai sefydliadau benderfynu ar sail risg flaenoriaethu adolygiad o iaith gytundebol wrth edrych i'r dyfodol er mwyn sicrhau ei bod yn gyson â GDPR y DU.

Sefydliadau'r DU sydd â sefydliad yn yr AEE neu sy'n prosesu data personol trigolion yr AEE

Y gofyniad i gydymffurfio â GDPR yr UE:

Dylai sefydliadau fod yn ymwybodol y gallai fod rhwymedigaeth arnynt o dan GDPR yr UE mewn dwy sefyllfa:

- Os oes gan sefydliad yn y DU leoliad (e.e. cangen neu swyddfa) yn yr AEE, bydd angen i'r lleoliad yn yr AEE gydymffurfio â GDPR yr UE mewn cysylltiad â gweithgareddau'r lleoliad hwnnw (gweler Erthygl 3(1) o GDPR yr UE).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Os nad oes gan sefydliad y DU unrhyw leoliad yn yr AEE, bydd GDPR yr UE yn dal i fod yn berthnasol os yw'r sefydliad yn cynnig nwyddau neu wasanaethau i drigolion yr AEE, neu'n monitro ymddygiad trigolion yr AEE (os bydd yr ymddygiad hwnnw yn digwydd yn yr AEE) (gweler Erthygl 3(2) o GDPR yr UE). Gallai "monitro ymddygiad" gynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag olrhain neu fonitro dinasyddion Prydeinig sy'n preswyllo yn yr UE. O ran "cynnig nwyddau a gwasanaethau", dylai sefydliadau fod yn ymwybodol y gallai hyn fod yn berthnasol i weithgareddau anfasnachol a gyflawnir gan lywodraeth, er enghraifft cynnig fisa.

O gofio'r gyfatebiaeth agos iawn rhwng GDPR y DU a'r UE, nid ydym yn rhagweld y bydd gwahaniaethau sylweddol i'r rhwymedigaethau ar sefydliadau'r DU o dan gyfundrefn y DU a'r UE wrth ymadael. Er hynny, dylai sefydliadau fod yn ymwybodol, mewn rhai sefyllfaoedd, y bydd ganddynt rwymedigaeth o bosibl o dan GDPR yr UE yn ogystal â GDPR y DU.

Mae hwn yn faes technegol a manwl ac rydym yn argymhell bod sefydliadau'r DU yn ymgynghori â chanllawiau cwrmpas tiriogaethol y Bwrdd Diogelu Data Ewropeaidd, sydd ar gael yn:

https://edpb.europa.eu/sites/edpb/files/consultation/edpb_guidelines_3_2018_territorial_scope_en.pdf.

Effeithiau cyfreithiau eraill yr UE a chyfreithiau Aelod-wladwriaethau'r AEE ar brosesu: Dylai sefydliadau sydd â lleoliad yn yr AEE neu sy'n prosesu data personol trigolion yr AEE ystyried hefyd unrhyw gyfreithiau gan Aelod-wladwriaeth sy'n ategu GDPR yr UE mewn meysydd technegol (yn debyg i'r modd y mae Deddf Diogelu Data 2018 yn ategu GDPR y DU). Er enghraifft, efallai y bydd cyfreithiau Aelod-wladwriaeth yn darparu rheolau arbennig ar gyfer rheoli hawliau testunau data, neu wrth brosesu "categoriâu arbennig o ddata personol".

Ymdrin ag Awdurdodau Goruchwylio eraill yr UE a'r AEE:

Mae'r trefniadau Siop Un Stop a'r awdurdod goruchwylio arweiniol yn GDPR yr UE yn caniatáu i reolwyr a phroseswyr data gysylltu ag un awdurdod goruchwylio arweiniol pan brosesir data ar draws ffiniau yn yr AEE, neu os yw'r rheolwr neu'r prosesydd wedi ei leoli mewn un Aelod-wladwriaeth ond mae'r data personol a brosesir yn debygol o effeithio'n sylweddol ar unigolion mewn unrhyw wladwriaeth arall yr AEE.

Pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ni fydd y trefniadau hyn yn berthnasol i'r DU mwyach. Mae hyn yn golygu efallai y bydd yn rhaid i sefydliadau sydd wedi eu lleoli yn y DU sy'n prosesu data trigolion yr AEE ymdrin â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac awdurdodau goruchwylio mewn gwladwriaethau AEE perthnasol eraill. Mewn achos o ddiffyg cydymffurfio, gallai'r sefydliad fod yn agored hefyd i'r risg o gamau gorfodi a/neu gosbau lluosog. Yn yr achos hwn, dylech ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn gynted â phosibl.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I gael rhagor o wybodaeth, mae canllawiau'r Bwrdd Diogelu Data Ewropeaidd ar awdurdodau goruchwyllo arweiniol ar gael yn:

https://ec.europa.eu/newsroom/article29/item-detail.cfm?item_id=611235

Y gofyniad i benodi cynrychiolydd o'r UE: Mae awdurdodau cyhoeddus wedi eu heithrio rhag gofyniad Erthygl 27 o GDPR yr UE i benodi cynrychiolydd o'r UE wrth brosesu data am drigolion yr AEE. Er hynny, gall unrhyw adran sy'n pryderu y bydd sefydliadau y maent yn gyfrifol amdanynt o fewn cwrmpas Erthygl 27 (h.y. oherwydd nad ydynt yn awdurdod cyhoeddus) ddymuno trafod hyn ymhellach â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Gwaith prosesu sydd â sail gyfreithlon yng nghyfraith yr Undeb

Mae EUWA 2018 yn cyflwyno cyfraith yr UE i gyfraith ddomestig y DU fel y saif pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae hyn yn golygu, os yw sefydliad wedi bod yn dibynnu ar gyfraith yr UE fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol (e.e. o dan Erthygl 6(1)), ei bod yn debygol y bydd y gyfraith berthnasol yn cael ei dwyn ymlaen i gyfraith y DU. Er hynny, dylai sefydliadau wirio hyn gyda'r adran arweiniol berthnasol yn y Llywodraeth oherwydd, mewn rhai achosion, gall y ddeddfwriaeth weithredu arwain at ddiffyg a fydd yn effeithio ar y sail gyfreithlon wreiddiol. (Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw achosion penodol lle mae hyn yn broblem).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dulliau Trosglwyddo Amgen o dan Erthygl 46 o'r GDPR

Nod y canllawiau hyn yw helpu cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i ystyried gweithredu camau diogelu priodol ar gyfer trosglwyddo data personol gan sefydliadau yn yr AEE i awdurdodau neu gyrff cyhoeddus yn y DU os yw'r DU yn gadael yr UE heb benderfyniad digonolrwydd a lle **nad** yw Cymalau Cytundebol Safonol a threfniadau gweinyddol yn berthnasol. Bydd yn canolbwyntio ar weithredu'r camau diogelu priodol canlynol o dan Erthygl 46 o'r GDPR: offerynnau sy'n rhwymo mewn cyfraith a chymalau cytundebol personol.

Sylwer ei bod hi'n annhebygol iawn y gellid cyflwyno cymalau cytundebol addasu cyn 31 Hydref 2019 oherwydd y broses gymeradwyo sydd ei hangen. Er mwyn lliniaru'r risgiau diwrnod cyntaf o adael yr UE heb gytundeb, dylech ystyried, fel cam lliniaru tymor byr, a oes modd defnyddio Cymalau Cytundebol Safonol mewn gwirionedd, neu a oes modd dibynnu ar randdirymiaid yn Erthygl 49 o'r GDPR. Gweler adrannau yn y canllawiau hyn sy'n cwmpasu Cymalau Cytundebol Safonol a rhanddirymiaid i gael rhagor o wybodaeth.

Efallai eich bod yn ymwybodol o gamau diogelu priodol eraill ar gyfer trosglwyddo data personol o dan Erthygl 46, megis rheolau corfforaethol rhwymol, codau ymddygiad a chynlluniau ardystio. Nid yw'r camau diogelu hyn yn ffurfio sylwedd y canllawiau hyn. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran "Cwestiynau ac Atebion Allweddol", isod.

Offerynnau sy'n Rhwymo Mewn Cyfraith

Mae Erthygl 46(2)(a) yn cyfeirio at offeryn sy'n rhwymo mewn cyfraith ac yn orfodadwy **rhwng awdurdodau neu gyrff cyhoeddus**.

Gall hyn ganiatáu i reolwr data drosglwyddo data personol y tu allan i'r DU pan geir trefniadau a lywodraethir gan contract, cytuniad neu offeryn arall sy'n rhwymo mewn cyfraith rhwng awdurdodau neu gyrff cyhoeddus, sydd (1) yn darparu mesurau diogelu priodol i ddiogelu preifatrwydd testunau data, a (2) yn cynnwys dull o gefnogi hawliau gorfodadwy testunau data a rhwymedïau cyfreithiol ar gyfer testunau data. Sylwer na fydd memorandwm cyd-ddealltwriaeth neu drefniant gweinyddol tebyg yn ddigonol yn gyffredinol at ddibenion Erthygl 46(2)(a) gan fod yn rhaid i'r offeryn perthnasol fod yn orfodadwy yn gyfreithiol. Er hynny, gall memorandwm cyd-ddealltwriaeth fod yn sail i drefniant gweinyddol (gweler y canllawiau ar Drefniadau Gweinyddol o dan Erthygl 46 o'r GDPR i gael rhagor o wybodaeth).

Buddion

- Nid oes angen unrhyw awdurdodiad penodol gan awdurdod goruchwyllo.
- Mae'n bosibl ei fod yn fwy hyblyg na Chymalau Cytundebol Safonol gan nad yw'r math o drefniant wedi ei gyfyngu i contract – gellid bodloni camau diogelu drwy ddefnyddio math gwahanol o gytundeb sy'n rhwymo mewn cyfraith (e.e. cytuniad).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfyngiadau

- Mae'n ofynnol gweithredu offeryn y gellir ei orfodi'n gyfreithiol, a fyddai'n debygol o gynnwys proses hirfaith a dwys o ran adnoddau.
- Ar gyfer awdurdodau neu gyrff cyhoeddus yn unig y mae'n berthnasol; nid yw'n berthnasol rhwng gyrff cyhoeddus a chwmnïau preifat.

Cymalau Cytundebol Addasu

Mae Erthygl 46(3)(a) yn cyfeirio at gymalau cytundebol rhwng y rheolwr neu'r prosesydd a'r rheolwr, prosesydd neu dderbynnnydd y data personol yn y drydedd wlad neu sefydliad rhyngwladol.

Mae hyn yn rhagweld mabwysiadu cymalau cytundebol personol a all weithredu yn annibynnol neu y gellir eu mewnosod i gontract sydd eisoes yn bodoli.

Buddion

- Gellir eu haddasu i sefyllfa brosesu awdurdodau cyhoeddus neu gyrff unigol.
- Nid yw Erthygl 46(3)(a) (cymalau cytundebol addasu) wedi eu cyfyngu i drosglwyddiadau rhwng awdurdodau neu gyrff cyhoeddus yn unig ac felly gellir eu defnyddio i alluogi trosglwyddiadau rhwng gyrff cyhoeddus a phreifat.

Cyfyngiadau

- Rhwystrau gweithdrefnol. Mae'r camau diogelu hyn yn gofyn am awdurdodiad penodol gan yr awdurdod goruchwyllo yn y wlad (neu'r gwledydd) y mae'r trosglwyddiad cyfyngedig yn cael ei wneud ohoni/ohonynt. Cyn caniatáu awdurdodiad ar gyfer cymalau cytundebol o dan Erthygl 46(3)(a), mae'n rhaid i'r awdurdod goruchwyllo perthnasol y gwneir y cais am gymeradwyaeth iddo ymgynghori â'r EDPB drwy'r dull cysondeb o dan erthygl 63. Mae'r broses gymeradwyo hon yn debygol o fod yn hirfaith a defnyddio llawer o adnoddau, gan fynd i gost sylweddol, ac mae'n annhebygol iawn y bydd yn cael ei chwblhau cyn 31 Hydref 2019.

Cwestiynau ac Atebion Allweddol

A gaiff awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio rheolau corfforaethol rhwymol?

Na chânt. Lluniwyd rheolau corfforaethol rhwymol i ganiatáu i gwmnïau amlwladol drosglwyddo data personol o fewn grŵp o gysylltiadau yn yr AEE i'w cwmnïau cysylltiedig sydd wedi eu lleoli y tu allan i'r AEE. Gall rheolau corfforaethol rhwymol fod un ai ar gyfer trosglwyddo data personol o reolwr data i reolwr data (rheolau corfforaethol rhwymol ar gyfer Rheolwyr), neu ar gyfer trosglwyddo data sy'n cynnwys proseswyr data (rheolau corfforaethol rhwymol ar gyfer Proseswyr). Nid yw rheolau corfforaethol rhwymol yn berthnasol felly i'r sector cyhoeddus.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

A fydd awdurdodau goruchwyllo'r UE yn hyrwyddo cynlluniau ardystio neu godau ymddygiad?

Er mwyn gallu trosglwyddo o sefydliad yn yr UE i sefydliad yn y DU, mewn sefyllfa heb gytundeb, byddai angen i'r sefydliad yn y DU ymrwmo i god a gymeradwywyd gan yr UE neu gael ei ardystio o dan un o gynlluniau ardystio yr UE. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw godau ymddygiad na dulliau ardystio y gellid eu defnyddio os na fydd gennym gytundeb ym mis Hydref, ac nid yw creu codau neu ddulliau o'r fath er mwyn hwyluso trosglwyddiadau o'r UE i'r DU o fewn awdurdod y DU.

Yn unol â hynny, ni ddylid ystyried defnyddio'r camau diogelu hyn ar hyn o bryd.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiynau Cyffredin

A yw Cymalau Cytundebol Safonol yn dal i fod y dewis a ffeirir ar gyfer diogelu trosglwyddiadau data personol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) i'r DU, os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb?

- Mae Cymalau Cytundebol Safonol yn ddull diogelu hysbys ac rydym yn argymhell bod y rhain yn cael eu hystyried cyn dulliau trosglwyddo amgen yn absenoldeb penderfyniadau digonolrwydd. Pan fo modd eu defnyddio, maent yn debygol o fod yn gyflymach, yn haws ac yn rhatach i'w gweithredu.
- Pan na ellir gweithredu Cymalau Cytundebol Safonol, dylai cyrff y sector cyhoeddus ystyried a allent ymrwmo i drefniant gweinyddol, neu a ellir dibynnu ar ddull trosglwyddo amgen o dan Erthygl 46 o'r GDPR.
- Os nad yw'n bosibl rhoi camau diogelu priodol ar waith cyn y dyddiad ymadael, dylech ystyried a ellir dibynnu ar randdirymiad o dan Erthygl 49 o'r GDPR fel dewis dros dro. Er hynny, lluniwyd rhanddirymiadau ar gyfer eu trin fel eithriadau ac ni ddylid dibynnu arnynt fel mater o drefn.

Beth yw'r risg y caiff Cymalau Cytundebol Safonol eu taro i lawr gan Lys Cyfiawnder yr UE yn achos Schrems II?

- Mae'r achos llys yn parhau ac mae'n anodd rhagweld beth fydd y canlyniad. Bydd barn ragarweiniol (AG) yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019, a disgwylir dyfarniad terfynol ym mis Mawrth 2020 (ar sail yr amserlenni arferol).
- Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod Cymalau Cytundebol Safonol yn addas i'w diben ac mai dyma'r dewis a ffeirir ar hyn o bryd. Rydym wedi cyflwyno ein harsylwadau o achos Schrems II i Lys Cyfiawnder yr UE er mwyn cefnogi'r penderfyniadau a wneir gan y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n sail i'r Cymalau Cytundebol Safonol.
- Nid mater o ymadael â'r UE yw hwn ac efallai y bydd i'r penderfyniad oblygiadau ehangach o lawer ar gyfer pob trosglwyddiad rhyngwladol rhwng yr UE a thrydedd wlad. Bydd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau i fonitro effaith datblygiadau ac yn rhoi rhagor o gyngor yn ôl yr angen.

A fyddai modd i ddata fod yn lleol er mwyn lliniaru'r risg o darfu ar lifau data critigol?

- Yn y rhan fwyaf o achosion, **ni fyddai sicrhau data lleol yn gam gweithredu cymesur** i bawb oni bai am y setiau data mwyaf critigol o ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â symud data, gan gynnwys diogelwch, cost, amseroedd arwain, a gallu technegol.
- Gallai data lleol wrthdaro â pholisïau data a masnach y Llywodraeth o ddileu rhwystrau i lifau data, yn bennaf drwy fynd i'r afael â data lleol heb gyfiawnhad. Dylid ystyried y gwrthdaro hwn yn eich asesiad risg.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

A oedd y llythyrau sicrwydd i'r llywodraeth gan y 18 o gyflenwyr allweddol yn gyfyngedig o ran amser, o safbwynt data personol?

- Nid oedd y sicrwydd wedi'u cyfyngu o ran amser – roedd yn sicrwydd y byddai llifau data yn parhau i lifo pe byddai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb.
- Mae adrannau/awdurdodau datganoledig wedi cael y sicrwydd hwn ynghyd â chanllawiau ategol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gan ddibynnu ar eu goddefiannau risg eu hunain, mae'n bosibl y byddant yn ceisio cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r risg hon. Er hynny, mae'n rhaid pwysu a mesur hynny yn erbyn risgiau gweithredol eraill.

ATODIAD A – TEMPLED LLYTHYR CYFLENWR AC ATODLEN YNGLŶN Â'R CYMALAU CYTUNDEBOL SAFONOL

[Mewnosodwch Destun Pennawd yr Awdurdod Contractio]

[Enw Rheolwr Contract y Cyflenwr

Enw'r Cyflenwr

Enw'r Stryd

Tref

Sir/Gwlad

Cod post

[00 mis] 2019

Annwyl [Enw Rheolwr Contract y Cyflenwr]

Parthed: Atodlen ynglŷn â'r Cymalau Cytundebol Safonol i adlewyrchu effaith ymadawiad y DU â'r UE a'r broses barhaus o dderbyn data personol o'r AEE

Mae o fudd i bawb fod cyfnewid data personol rhwng yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ("AEE") a'r DU yn parhau yn achos Brexit heb gytundeb.

Efallai bod Gwasanaeth Masnachol y Goron wedi cysylltu â chi eisoes i roi gwybod i chi y dylech ddisgwyl clywed gan Awdurdodau Contractio ynghylch ymrwymo i'r Cymalau Cytundebol Safonol. Mae hyn yn gysylltiedig â throsglwyddiadau a wnaed yn unol â chontractau yn ôl y gofyn presennol o dan fframweithiau neu gontractau sydd gennych yn uniongyrchol ag adrannau. Mae'r llythyr hwn yn gais gennym ni, fel Awdurdod Contractio, i ymrwymo i'r Cymalau Cytundebol Safonol mewn cysylltiad â'r contract canlynol:

[Rhowch enw/dyddiad/cyfeirnod y contract]

Camau i'w cymryd – erbyn [dyddiad]

Gofynnwn ichi ddarllen y Cymalau Cytundebol Safonol yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn. Os ydych yn fodlon eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r trosglwyddiadau data personol rhwng yr AEE a'r DU a wnaed gennych chi fel Cyflenwr i ni fel Awdurdod Contractio o dan y contract uchod, dylech chi lenwi unrhyw fanylion sydd ar goll, llenwi Atodiad B: disgrifiad o'r trosglwyddiad a chwblhau'r Cymalau Cytundebol Safonol lle nodir hynny.

Bydd y Cymalau Cytundebol Safonol yn weithredol dim ond pan fydd y Pawb wedi eu llofnodi o'r dyddiad y mae'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac:

- ni wnaed penderfyniad digonolrwydd gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y DU o dan Erthygl 45 o'r GDPR; ac
- nid yw'r DU yn rhwym wrth gyfnod trosiannol cyfreithiol pan gaiff ei drin gan yr Undeb Ewropeaidd fel Aelod-wladwriaeth at ddibenion cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (megis yr un a grëwyd gan Erthygl 126 o'r Cytundeb ar ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon o'r Undeb

Ewropeaidd a'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd, fel y cadarnhawyd gan arweinwyr mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor Ewropeaidd ar 25 Tachwedd 2018).

Cost Cydymffurfio

Bydd y Cymalau Cytundebol Safonol yn gorwedd ochr yn ochr â'n contract i gefnogi'r llifau data a wneir o dan y contract hwnnw ac maent yn gytundeb ar wahân. Nid ydynt yn gyfystyr ag amrywio telerau'r contract presennol. At hynny, nid ydym, ni waeth beth yw'r sefyllfa, yn disgwyl i sefydliadau ysgwyddo unrhyw gost mewn cysylltiad â mabwysiadu cymalau cytundebol safonol. Fodd bynnag, os eir i unrhyw gostau, byddem yn disgwyl iddynt fod wedi eu priodoli i gost cynnal busnes yn yr UE, ac nid i gyflenwi gwasanaethau i sector cyhoeddus y DU.

Nodwn hefyd fod y Cymal newid deddfwriaethol [rhowch rif y cymal yma neu ddileu'r paragraff hwn os nad oes gennych gymalau sy'n ymdrin â newid yn y gyfraith] o dan y contract yn dweud nad oes gan Gyflenwr yr hawl i gael ei ryddhau o rwymedigaethau na chynnydd mewn prisiau o ganlyniad i Newid Cyffredinol yn y Gyfraith.

Atodiad 1: Cymalau Cytundebol Safonol Rheolwr i Reolwr

[Noder: I'w lenwi ar y cyd gan briod Swyddogion Diogelu Data y Partïon]

CYMALAU CYTUNDEBOL SAFONOL RHEOLWR I REOLWR

Cytundeb trosglwyddo data

rhwng

..... (enw)

..... (cyfeiriad a gwlad y sefydliad) [I'W LENWI]

yr "**allforiwr data**" wedi hyn)

a

..... (enw)

..... (cyfeiriad a gwlad y sefydliad) [I'W LENWI]

y "**mewnforiwr data**" wedi hyn

pob un yn "**barti**"; gyda'i gilydd "**y partïon**".

Mae'r partïon yn cytuno yr ymrwymir i'r cymalau mewn perthynas â throsglwyddo data personol o dan y contract canlynol: [enw'r contract] [rhif cyfeirnod] [dyddiad].

Mae'r partïon yn cytuno hefyd y daw'r cymalau i rym os bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd: (i) heb fod penderfyniad digonolrwydd wedi'i wneud gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y DU o dan Erthygl 45 o'r GDPR; ac (ii) nid yw'r Deyrnas Unedig yn rhwym wrth gyfnod trosiannol cyfreithiol pan gaiff ei drin gan yr Undeb Ewropeaidd fel Aelod-wladwriaeth at ddibenion cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (fel yr un a grëwyd gan erthygl 126 o'r Cytundeb ar ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd a'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd, fel y'i cymeradwywyd gan arweinwyr mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor Ewropeaidd ar 25 Tachwedd 2018).

Diffiniadau

At ddibenion y cymalau:

bydd gan "**data personol**", "**categoriâu arbennig o ddata/data sensitif**", "**proses/prosesu**", "**rheolwr**", "**prosesydd**", "**testun data**", ac "**awdurdod/awdurdod goruchwylio**" yr un ystyr ag yng Nghyfarwydddeb 95/46/EC 24 Hydref 1995 (lle mai ystyr yr "**awdurdod**" yw'r awdurdod cymwys diogelu data yn y diriogaeth lle mae'r allforiwr data wedi'i sefydlu);

ystyr "**cymalau**" yw'r cymalau cytundebol hyn sy'n ddogfen annibynnol yn ei rhinwedd ei hun nad yw'n cynnwys telerau busnes masnachol a sefydlwyd gan y partïon o dan drefniadau masnachol ar wahân;

ystyr "**allforiwr data**" yw'r rheolwr sy'n trosglwyddo'r data personol; ac

ystyr "**mewnforiwr data**" yw'r rheolwr sy'n cytuno i dderbyn data personol allforiwr data i'w brosesu ymhellach yn unol â thelerau'r cymalau hyn ac nad yw'n rhwym wrth system trydedd wlad gan sicrhau gwarchodaeth ddigonol.

Nodir manylion y trosglwyddiad (yn ogystal â'r data personol a gwmpesir) yn Atodiad B, sy'n ffurfio rhan annatod o'r cymalau.

1. Rhwymedigaethau'r allforiwr data

Mae'r allforiwr data yn gwarantu ac yn ymrwymo i'r canlynol:

- 1.1 bydd data personol wedi eu casglu, eu prosesu a'u trosglwyddo yn unol â'r cyfreithiau sy'n berthnasol i'r allforiwr data;
- 1.2 ei fod wedi ymdrechu'n rhesymol i bennu bod y mewnforiwr data yn gallu bodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol o dan y cymalau hyn;
- 1.3 bydd yn rhoi i'r mewnforiwr data, ar gais, gopiâu o gyfreithiau diogelu data perthnasol (lle bo hynny'n berthnasol, a heb gynnwys cyngor cyfreithiol) y wlad lle mae'r allforiwr data wedi'i sefydlu, neu gyfeiriadau atynt;
- 1.4 bydd yn ymateb i ymholiadau gan destunau data a'r awdurdod ynghylch prosesu'r data personol gan y mewnforiwr data, oni bai fod y partion wedi cytuno y bydd y mewnforiwr data yn ymateb, ac os felly bydd yr allforiwr data yn dal i ymateb i'r graddau y bo hynny'n rhesymol bosibl ac â'r wybodaeth sydd ar gael yn rhesymol iddo os yw'r mewnforiwr data yn anfodlon neu'n methu ag ymateb. Ymatebir o fewn amser rhesymol; a
- 1.5 bydd yn darparu, ar gais, gopi o'r cymalau i'r testunau data sy'n fuddiolwyr trydydd parti o dan gymal 3, oni bai fod y cymalau yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, ac os felly gall ddileu gwybodaeth o'r fath. Os dilëir gwybodaeth, bydd yr allforiwr data yn hysbysu'r testunau data yn ysgrifenedig o'r rheswm dros ddileu'r wybodaeth ac o'u hawl i hysbysu'r awdurdod am y dileu. Fodd bynnag, rhaid i'r allforiwr data lynu wrth benderfyniad yr awdurdod bod y testunau data yn gallu gweld testun llawn y cymalau, cyn belled â bod y testunau data wedi cytuno i barchu cyfrinachedd yr wybodaeth gyfrinachol a ddilëwyd. Bydd yr allforiwr data hefyd yn darparu copi o'r cymalau i'r awdurdod lle bo angen.

2. Rhwymedigaethau'r mewnforiwr data

Mae'r mewnforiwr data yn gwarantu ac yn ymrwymo i'r canlynol:

- 2.1 bydd ganddo fesurau technegol a threfniadol priodol ar waith i ddiogelu data personol rhag cael eu dinistrio'n ddamweiniol neu'n anghyfreithlon neu eu colli'n ddamweiniol, eu haddasu, eu datgelu neu eu defnyddio heb awdurdod, ac sy'n diogelu'r data hynny i'r graddau sy'n cyfateb i'r risg sydd ynghlwm wrth natur y data sydd i'w diogelu, ac â phrosesu'r data hynny;

- 2.2 bydd ganddo weithdrefnau ar waith fel y bydd unrhyw drydydd parti y mae'n ei awdurdodi i weld y data personol, gan gynnwys proseswyr, yn parchu ac yn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch y data personol. Bydd yn orfodol i unrhyw berson sy'n gweithredu o dan awdurdod y mewnforiwr data, gan gynnwys prosesydd data, brosesu dim ond y data personol a hynny yn unol â chyfarwyddiadau gan y mewnforiwr data. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i unigolion sydd wedi'u hawdurdodi neu y mae cyfraith neu reoliad yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt allu gweld y data personol;
- 2.3 nid oes ganddo reswm dros gredu, ar adeg llunio'r cymalau hyn, bod unrhyw gyfreithiau lleol yn bodoli a fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar y gwarantau y darperir ar eu cyfer o dan y cymalau hyn, a bydd yn hysbysu'r allforiwr data (a fydd yn ei dro yn hysbysu'r awdurdod os oes angen) os daw'n ymwybodol o unrhyw gyfreithiau o'r fath;
- 2.4 bydd yn prosesu'r data personol at ddibenion a ddisgrifir yn Atodiad B, a bod ganddo'r awdurdod cyfreithiol i roi'r gwarantau a chyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y cymalau hyn;
- 2.5 bydd yn hysbysu'r allforiwr data am bwynt cyswllt o fewn ei sefydliad sydd wedi'i awdurdodi i ymateb i ymholiadau ynghylch prosesu'r data personol, a bydd yn cydweithredu'n ddidwyll â'r allforiwr data, y testun data a'r awdurdod ynghylch pob ymholiad o'r fath o fewn amser rhesymol. Os caiff yr allforiwr data ei ddiddymu yn gyfreithiol, neu os yw'r partïon wedi cytuno felly, bydd y mewnforiwr data yn gyfrifol am gydymffurfio â darpariaethau cymal 1.5;
- 2.6 bydd, ar gais yr allforiwr data, yn rhoi tystiolaeth i'r allforiwr data bod ganddo'r adnoddau ariannol digonol i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan gymal 3 (a all gynnwys sicrwydd yswiriant);
- 2.7 bydd, ar gais rhesymol yr allforiwr data, yn cyflwyno ei gyfleusterau prosesu data, y ffeiliau data a'r ddogfennaeth sydd eu hangen i'w prosesu, i'w hadolygu, eu harchwilio a/neu eu hardystio gan yr allforiwr data (neu unrhyw asiantau arolygu annibynnol neu ddiduedd neu archwilyr, wedi'u dewis gan yr allforiwr data ac nad yw'r mewnforiwr data yn ei wrthwynebu'n rhesymol) i ganfod a gydymffurfiwyd â'r gwarantau a'r ymrwymiadau yn y cymalau hyn, gyda rhybudd rhesymol ac yn ystod oriau busnes rheolaidd. Bydd y cais yn ddibynnol ar unrhyw ganiatâd neu gymeradwyaeth angenrheidiol gan awdurdod rheoleiddio neu oruchwylio yng ngwlad y mewnforiwr data, a bydd y mewnforiwr data yn ceisio cael y caniatâd neu'r gymeradwyaeth mewn modd amserol;
- 2.8 bydd yn prosesu'r data personol, fel y mae'n dewis, yn unol â:
- 2.8.1 deddfau diogelu data y wlad lle mae'r allforiwr data wedi'i sefydlu; neu
- 2.8.2 darpariaethau perthnasol unrhyw benderfyniad gan y Comisiwn yn unol ag Erthygl 25 (6) o Gyfarwyddeb 95/46/EC, pan fo'r data a fewnforiwyd yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol awdurdodiad neu benderfyniad o'r fath ac wedi'u lleoli mewn gwlad y mae'r awdurdodiad neu'r penderfyniad hwnnw'n berthnasol iddi, ond nad yw'n dod o dan awdurdodiad neu benderfyniad o'r fath at ddibenion trosglwyddo'r data personol; neu

2.8.3 yr egwyddorion prosesu data a nodir yn Atodiad A:

2.8.3.1 Y mewnforiwr data i ddangos pa opsiwn y mae'n ei ddewis: 2.8.3

2.8.3.2 Ystyrir bod blaenlythrennau'r mewnforiwr data wedi eu cynnwys

2.9 Ni fydd yn datgelu nac yn trosglwyddo'r data personol i reolwr data trydydd parti sydd wedi'i leoli y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) oni bai ei fod yn hysbysu'r allforiwr data am y trosglwyddiad;
a

2.9.1 bod y rheolwr data trydydd parti yn prosesu'r data personol yn unol â phenderfyniad Comisiwn a ganfu fod trydedd wlad yn darparu diogelwch digonol; neu

2.9.2 bod y rheolwr data trydydd parti yn dod yn llofnodydd i'r cymalau hyn neu i gytundeb trosglwyddo data arall a gymeradwywyd gan awdurdod cymwys yn yr UE; neu

2.9.3 y rhoddwyd cyfle i destunau'r data wrthwynebu, ar ôl cael gwybod am ddibenion y trosglwyddo, categorïau y rhai fydd yn derbyn y data a'r ffaith ei bod yn bosibl y bydd gan y gwledydd yr allforir y data iddynt safonau gwahanol o ran diogelu data; neu

2.9.4 o ran trosglwyddo data sensitif, bod testunau data wedi cydsynio'n ddiamwys i'r trosglwyddo.

3. Atebolrwydd a hawliau trydydd parti

3.1 Bydd pob parti yn atebol i'r partïon eraill am unrhyw niwed y mae'n ei achosi drwy dorri'r cymalau hyn mewn unrhyw fodd. Caiff atebolrwydd rhwng y partïon ei gyfyngu i niwed gwirioneddol a ddioddefir. Mae iawndal cosb (h.y. iawndal a fwriedir i gosbi parti am ei ymddygiad gwarthus) wedi ei eithrio'n benodol. Bydd pob parti yn atebol i destunau data am niwed y mae'n ei achosi drwy unrhyw achos o dramgwyddo hawliau trydydd parti o dan y cymalau hyn. Nid yw hyn yn effeithio ar atebolrwydd yr allforiwr data o dan ei gyfraith diogelu data.

3.2 Mae'r partïon yn cytuno y bydd gan destun data yr hawl i orfodi fel buddiolwr trydydd parti y cymal hwn a chymalau 1.2, 1.4, 1.5, 2.1, 2.3, 2.4, 2.5, 2.8, 2.9, 3.1, 5, 6.4 a 7 yn erbyn y mewnforiwr data neu'r allforiwr data, os yw'r naill neu'r llall yn torri ei rwymedigaethau cytundebol o ran ei ddata personol a derbyn awdurdodaeth at y diben hwn yn y wlad lle mae'r allforiwr data wedi'i ymsefydlu. Mewn achosion sy'n ymwneud â honiadau o dor-amod gan y mewnforiwr data hwnnw, rhaid i'r testun data ofyn yn gyntaf i'r allforiwr data weithredu'n briodol i orfodi ei hawliau yn erbyn y mewnforiwr data, os nad yw'r allforiwr data yn gweithredu'n briodol o fewn cyfnod rhesymol (a fyddai'n un mis o dan amgylchiadau arferol), gall testun y data orfodi ei hawliau yn erbyn y mewnforiwr data yn uniongyrchol. Mae gan destun y data yr hawl i weithredu'n uniongyrchol yn erbyn allforiwr data sydd wedi methu, ar ôl ymdrech resymol, â phenderfynu a

all mewnforiwr data gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o dan y cymalau hyn (bydd yr allforiwr data yn gorfod profi iddo wneud ymdrech resymol).

4. Y gyfraith sy'n berthnasol i'r cymalau

Mae'r cymalau hyn yn ddarostyngedig i gyfraith y wlad lle mae'r allforiwr data wedi'i sefydlu, ac eithrio'r cyfreithiau a'r rheoliadau sy'n ymwneud â phrosesu'r data personol gan y mewnforiwr data o dan gymal 2.8 a fydd yn berthnasol dim ond os yw'r mewnforiwr data yn dewis hynny o dan y cymal hwnnw.

5. Datrys anghydfodau gyda thestunau data neu'r awdurdod

5.1 Os digwydd anghydfod neu os yw testun data neu'r awdurdod yn dwyn achos ynghylch prosesu'r data personol yn erbyn y naill barti neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, bydd y partïon yn hysbysu ei gilydd ynghylch unrhyw anghydfodau neu achosion o'r fath, a byddant yn cydweithredu er mwyn ceisio'u datrys yn gyfeillgar mewn modd amserol.

5.2 Mae'r partïon yn cytuno i ymateb i unrhyw weithdrefn gyfryngu nad yw'n rhwymol sydd ar gael yn gyffredinol ac y mae'r testun data neu'r awdurdod yn ei dechrau. Os byddant yn cymryd rhan yn y trafodion, gall y partïon ddewis gwneud hynny o bell (er enghraifft dros y ffôn neu drwy ddull electronig arall). Mae'r partïon hefyd yn cytuno i ystyried cymryd rhan mewn unrhyw fath arall o eiriolaeth, cyfryngu neu achosion eraill o ddatrys anghydfod a ddatblygwyd ar gyfer anghydfodau diogelu data.

5.3 Rhaid i bob parti lynu wrth benderfyniad yr awdurdod neu lys cymwys yn y wlad lle mae'r allforiwr data wedi'i ymsefydlu. Mae'r penderfyniad hwnnw'n derfynol ac ni ellir apelio ymhellach yn ei erbyn.

6. Terfynu

6.1 Os bydd y mewnforiwr data yn torri ei rwymedigaethau o dan y cymalau hyn, gall yr allforiwr data atal y trosglwyddiad data personol i'r mewnforiwr data dros dro hyd nes yr ymlynir wrth y rhwymedigaeth neu y terfynir y contract.

6.2 Yn yr achosion canlynol:

6.2.1 os yw'r allforiwr data wedi atal trosglwyddiad data personol i'r mewnforiwr data am fwy nag un mis yn unol â pharagraff 6.1;

6.2.2 os byddai cydymffurfio â'r cymalau hyn yn peri i'r mewnforiwr data dorri ei rwymedigaeth cyfreithiol neu reoliadol yng ngwlad y mewnforio;

6.2.3 os yw'r mewnforiwr data yn torri unrhyw warantau neu ymgymeriadau a wnaeth o dan y cymalau hyn yn sylweddol neu yn gyson;

6.2.4 os gwneir penderfyniad terfynol na ellir cyflwyno unrhyw apêl bellach yn ei erbyn i lys cymwys o'r wlad lle mae'r allforiwr data wedi'i sefydlu neu os yw'r awdurdod yn dyfarnu bod y mewnforiwr data neu'r allforiwr data wedi torri'r cymalau;

6.2.5 os cyflwynir deiseb ar gyfer gweinyddu neu ddirwyn y mewnforiwr data i ben, boed hynny yn rhinwedd ei orchwylion personol neu fusnes, ac ni chaiff y ddeiseb ei gwrthod o fewn y cyfnod cymwys ar gyfer gwrthodiad o'r fath o dan gyfraith berthnasol; y gwneir gorchymyn dirwyn i ben; y penodir derbynnydd dros unrhyw un o'i asedau; y penodir ymddiriedolwr mewn methdaliad, os yw'r mewnforiwr data yn unigolyn; ei fod yn cychwyn ar drefniant gwirfoddol cwmni; neu os digwydd unrhyw ddigwyddiad cyfatebol mewn unrhyw awdurdodaeth;

6.2.6 yna bydd gan yr allforiwr data, heb effeithio ar unrhyw hawliau eraill a all fod ganddo yn erbyn y mewnforiwr data, yr hawl i derfynu'r cymalau hyn, ac os felly hysbysir yr awdurdod pan fo angen. Mewn achosion a gwmpesir gan 6.2.1, 6.2.2 neu 6.2.5 uchod gall y mewnforiwr data hefyd derfynu'r cymalau hyn.

6.3 Gall y naill barti neu'r llall derfynu'r cymalau hyn:

6.3.1 os gwneir unrhyw benderfyniad digonolrwydd cadarnhaol gan y Comisiwn o dan Erthygl 25(6) o Gyfarwyddeb 95/46/EC (neu unrhyw destun sy'n ei disodli) mewn cysylltiad â'r wlad (neu sector ohoni) y trosglwyddir y data iddi a'u prosesu gan y mewnforiwr data; neu

6.3.2 os daw Cyfarwyddeb 95/46/EC (neu unrhyw destun sy'n ei disodli) yn uniongyrchol berthnasol yn y cyfryw wlad.

6.4 Mae'r partïon yn cytuno nad yw terfynu'r cymalau hyn ar unrhyw adeg, o dan unrhyw amgylchiadau ac am ba reswm bynnag (ac eithrio ar gyfer terfynu o dan gymal 6.3) yn eu heithrio o'r rhwymedigaethau a/neu'r amodau o dan y cymalau o ran prosesu'r data personol a drosglwyddwyd.

7. Amrywio'r cymalau hyn

Ni chaiff y partïon addasu'r cymalau hyn oni bai fod hynny'n diweddarau unrhyw wybodaeth yn Atodiad B, ac os felly byddant yn hysbysu'r awdurdod pan fo angen. Nid yw hyn yn atal y partïon rhag cynnwys cymalau masnachol ychwanegol pan fo angen.

8. Disgrifiad o'r Trosglwyddiad

Nodir manylion y trosglwyddiad a'r data personol yn Atodiad B. Mae'r partïon yn cytuno y gall Atodiad B gynnwys gwybodaeth fusnes gyfrinachol na fyddant yn ei datgelu i drydydd parti, ac eithrio fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu mewn ymateb i gorff rheoleiddio neu asiantaeth gymwys sy'n gweithredu ar ran llywodraeth, neu fel sy'n ofynnol o dan gymal 1.5. Gall y partïon weithredu atodiadau ychwanegol i gwmpasu trosglwyddiadau ychwanegol, a gellir cyflwyno'r rhain i'r awdurdod pan fo angen. Fel arall, gellir drafftio Atodiad B i gwmpasu trosglwyddiadau lluosog.

ATODIAD A: EGWYDDORION PROSESU DATA

- 1. Diben cyfyngedig:** Gellir prosesu data personol ac yna'u defnyddio neu eu cyfathrebu ymhellach dim ond at y dibenion a ddisgrifir yn Atodiad B neu a awdurdodwyd wedyn gan destun y data.
- 2. Ansawdd a chymesuredd y data:** Rhaid i ddata personol fod yn gywir a, pan fo angen, fod wedi eu diweddarau. Rhaid i'r data personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac nid yn ormodol mewn cysylltiad â dibenion eu trosglwyddo a'u prosesu ymhellach.
- 3. Tryloywder:** Rhaid i destunau data gael yr wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau prosesu teg (megis gwybodaeth am ddibenion prosesu ac am y trosglwyddiad), oni bai fod yr allforiwr data eisoes wedi darparu'r cyfryw wybodaeth.
- 4. Diogelwch a chyfrinachedd:** Rhaid i'r rheolwr data weithredu mesurau diogelwch technegol a sefydliadol sy'n briodol i'r risgiau sydd ynghlwm â'r prosesu, megis rhag dinistr damweiniol neu anghyfreithlon neu golled ddamweiniol, addasu, datgelu neu fynediad anawdurdodedig, yn sgil prosesu. Rhaid i unrhyw berson sy'n gweithredu o dan awdurdod y rheolydd data, gan gynnwys prosesydd, beidio â phrosesu'r data ac eithrio ar gyfarwyddyd y rheolydd data.
- 5. Hawliau mynediad, cywiro, dileu a gwrthwynebu:** Fel y nodir yn Erthygl 12 o Gyfarwydddeb 95/46/EC, rhaid i destunau data, boed yn uniongyrchol neu drwy drydydd parti, gael yr wybodaeth bersonol y mae sefydliad yn ei chadw amdano, ac eithrio ceisiadau sy'n amlwg yn cam-fanteisio ar hynny, yn seiliedig ar gyfnodau neu nifer afresymol neu eu natur ailadroddus neu systematig, neu nad oes angen iddynt gael gweld yr wybodaeth o dan gyfraith gwlad yr allforiwr data. Ar yr amod bod yr awdurdod wedi rhoi ei gymeradwyaeth ymlaen llaw, ni fyddai angen gallu gweld yr wybodaeth ychwaith pan fyddai gwneud hynny yn debygol o wneud niwed difrifol i fuddiannau'r mewnforiwr data neu sefydliadau eraill sy'n ymdrin â'r mewnforiwr data ac nad yw hawliau sylfaenol a rhyddid testun y data yn drech na buddiannau o'r fath. Nid oes angen nodi ffynonellau'r data personol pan nad yw hyn yn bosibl drwy ymdrechion rhesymol, neu pe byddai hynny'n golygu tramgwyddo hawliau personau heblaw'r unigolyn. Rhaid i destunau'r data allu cael yr wybodaeth bersonol amdanynt wedi'i chywiro, ei diwygio neu ei dileu pan fo'n anghywir neu wedi'i phrosesu yn groes i'r egwyddorion hyn. Os oes sail gadarn i amau dilysrwydd y cais, efallai y bydd angen cyfiawnhad pellach ar y sefydliad cyn iddo fynd ati i gywiro, diwygio neu ddileu. Nid yw'n ofynnol hysbysu unrhyw drydydd parti nad yw'r data wedi'u datgelu iddynt am unrhyw gywiro, diwygio neu ddileu pan fydd hyn yn golygu ymdrech anghymesur. Rhaid i destun data hefyd allu gwrthwynebu prosesu'r data personol sy'n ymwneud ag ef os oes rhesymau dilys a chadarn sy'n ymwneud â'i sefyllfa benodol ef. Y mewnforiwr data sy'n gyfrifol am brofi unrhyw sail dros wrthod, a gall testun y data herio gwrthodiad ger bron yr awdurdod bob amser.
- 6. Data sensitif:** Bydd y mewnforiwr data yn cymryd y cyfrwy fesurau ychwanegol (e.e. mewn cysylltiad â diogelwch) ag sy'n angenrheidiol i ddiogelu data sensitif o'r fath yn unol â'i rwymedigaethau o dan gymal 2.
- 7. Data a ddefnyddir at ddibenion marchnata:** Pan gaiff data eu prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, dylai gweithdrefnau effeithiol fodoli er mwyn caniatáu i destun y data ddewis ar unrhyw adeg na cheir defnyddio'r data amdano at ddibenion o'r fath.

8. Penderfyniadau awtomataidd: At ddibenion y ddogfen hon, ystyr "penderfyniadau awtomataidd" yw penderfyniad gan yr allforiwr data neu'r mewnforiwr data sydd ag effeithiau cyfreithiol yn ymwneud â thestun y data neu sy'n effeithio'n sylweddol ar destun y data. Maent wedi'u seilio'n llwyr ar brosesu data personol yn awtomataidd, â'r bwriad o werthuso agweddau personol penodol sy'n ymwneud ag ef, megis ei berfformiad yn y gwaith, teilyngdod credyd, dibynadwyedd, ymddygiad, ac ati. Ni chaiff y mewnforiwr data wneud unrhyw benderfyniadau awtomataidd ynghylch testunau data, ac eithrio:

8.1 (i) pan wneir penderfyniadau o'r fath gan y mewnforiwr data wrth lunio neu gyflawni contract gyda'r testun data; a

(ii) pan fydd testun y data yn cael cyfle i drafod canlyniadau penderfyniad awtomataidd perthnasol gyda chynrychiolydd o'r partïon sy'n gwneud penderfyniad o'r fath neu fel arall i gyflwyno sylwadau i'r partïon hynny; neu

(iii) pan fo cyfraith yr allforiwr data yn caniatáu fel arall.

ATODIAD B: DISGRIFIAD O'R TROSGLWYDDIAD

[I'w gwblhau gan y partïon]

Testunau data

Mae'r data personol a drosglwyddwyd yn ymwneud â'r categorïau canlynol o destunau data: [cyflogeion, ymgeiswyr ar gyfer swyddi, ymgynghorwyr, asiantau, pobl wedi ymddeol]

Diben y trosglwyddiad(au)

Gwneir y trosglwyddiad at y dibenion canlynol: []

Categorïau data

Mae'r data personol a drosglwyddwyd yn ymwneud â'r categorïau canlynol o ddata: [e.e. enw, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post, rhif yswiriant cenedlaethol/ nawdd cymdeithasol, rhif y gweithiwr]

Derbynwyr

Gellir datgelu'r data personol a drosglwyddwyd i'r derbynwyr neu'r categorïau o dderbynwyr canlynol yn unig: [e.e. i gwmnïau eraill y grŵp fel sy'n ofynnol at ddibenion y trosglwyddiad ac i gwmnïau trydydd parti sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau perthnasol o dan gyfarwyddyd y mewnforiwr data.]

Data sensitif (os yw'n briodol)

Mae'r data personol a drosglwyddwyd yn ymwneud â'r categorïau canlynol o ddata sensitif: [e.e. data iechyd, manylion ynglŷn ag aelodaeth o undebau llafur, collfarnau troseddol a throseddau]

Prosesu data ynglŷn â gwybodaeth gofrestru'r allforiwr data (pan fo'n berthnasol)

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol (terfynau storio a gwybodaeth berthnasol arall)

Pwyntiau cyswllt ar gyfer ymholiadau ynglŷn â diogelu data

Y MEWNFORIWR DATA

.....

YR ALLFORIWR DATA

.....

ATODIAD B - TEMPLED TREFNIANT GWEINYDDOL A NODYN EGLURHAOL

Templed Nodyn Eglurhaol: Trefniant Gweinyddol ar gyfer trosglwyddo data personol

Lluniwyd y templed hwn i fod o gymorth wrth ystyried ymrwymo i drefniant gweinyddol gydag awdurdod cyhoeddus yn yr AEE o dan Erthygl 46(3)(b) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Bwriedir i'r templed hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer trefniadau dwyochrog. Fodd bynnag, mae croeso ichi ei addasu ar gyfer trefniadau amlochrog os yw hynny'n briodol.

Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb na phenderfyniad digonol, gallai awdurdodau neu gyrff cyhoeddus y DU a'r AEE ddefnyddio trefniadau gweinyddol i'w galluogi i barhau i drosglwyddo data personol rhyngddynt. Mae rhagor o wybodaeth am drefniadau gweinyddol ar [wefan Swyddfa'r Comisynydd Gwybodaeth](#), neu yn y Canllawiau uchod.

Cyfyngiadau

Yn gyffredinol, cymalau cytundebol safonol yw'r dull amgen **a ffefrir** a dylid eu hystyried cyn gwneud trefniadau gweinyddol pan fo'n bosibl eu rhoi ar waith. Mae cymalau cytundebol safonol yn ddull diogelu hysbys y gellir eu gweithredu'n gynt ac yn haws (i wybod mwy am gymalau cytundebol safonol gweler y canllawiau ar 'Defnyddio Cymalau Cytundebol Safonol i gael gafael ar ddata o'r AEE mewn sefyllfa Brexit heb gytundeb').

Er nad yw'r GDPR ond yn mynnu y caiff trefniadau gweinyddol eu hawdurdodi gan yr awdurdod goruchwyllo cymwys, mae'n debygol iawn y bydd y Bwrdd Diogelu Data Ewropeaidd (EDPB) yn dymuno cymeradwyo'r trefniadau ac na fyddant yn dechrau'r broses hon tan ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Gall hyn ddylanwadu ar sut y mae'r awdurdodau goruchwyllo yn ceisio cydymffurfio â'r dull cysondeb sy'n ofynnol o dan Erthygl 46(4) y GDPR. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau cyhoeddus yr AEE yn dechrau ymgysylltu â'r awdurdod goruchwyllo cymwys yn gynnar i ddeall y goblygiadau amseru yn llawn.

Os nad yw'n bosibl cael trefniant gweinyddol wedi'i gymeradwyo o'r diwrnod cyntaf ar ôl ymadael, dylai adrannau ystyried a oes camau lliniaru tymor byr eraill y gellid dibynnu arnynt, er enghraifft rhanddirymiadau Erthygl 49 y GDPR.

Trafod cyngor

1. Ymgynghori ag awdurdod cyhoeddus yr AEE ynglŷn â'r dull diogelu priodol a ffefrir o dan Erthygl 46 o'r GDPR;
2. Gellir defnyddio'r templed i helpu awdurdodau i ddrafftio trefniant gweinyddol;

3. Yna, mae'n rhaid i awdurdod goruchwyllo cymwys yr AEE awdurdodi'r trefniant gweinyddol ymlaen llaw (sylwer **nad oes** angen i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth adolygu'r trefniadau oherwydd caiff y trosglwyddiadau o'r DU i'r UE eu cwmpasu gan ddarpariaethau digonolrwydd trosiannol). Dylai awdurdod cyhoeddus yr AEE ymgysylltu â'r awdurdod goruchwyllo a cheisio sicrhau y caiff y trefniant ei adolygu (sylwer efallai na fydd yn bosibl cymeradwyo'r trefniant cyn i'r DU ymadael â'r UE gan nad oes unrhyw sail dros gael trefniant gweinyddol rhwng dau sefydliad yn yr AEE).

Trefniant gweinyddol drafft ar gyfer trosglwyddo data personol rhwng

Awdurdod cyhoeddus yr AEE

ac

Awdurdod cyhoeddus y DU

yn unigol yn "**Awdurdod**", a gyda'i gilydd yn "**Awdurdodau**",

gan weithredu'n ddidwyll, byddant yn cymhwyso'r camau diogelu a bennir yn y trefniant gweinyddol hwn ("**Trefniant**") i'r modd y trosglwyddir Data Personol Perthnasol rhyngddynt,

gan gydnabod pwysigrwydd diogelu Data Personol a sicrhau bod cyfundrefnau diogelu data cadarn ar waith,

gan roi sylw i Erthygl 46(3)(b) o'r GDPR a GDPR y DU,

gan ystyried y Gofynion Cyfreithiol Perthnasol ac yn arbennig ymgorfforiad Rheoliad (UE) 2016/679 i gyfraith ddomestig y DU,

gan ystyried cymhwysedd awdurdod goruchwyllo diogelu data'r DU i ymdrin â chwynion gan destunau data'r AEE ynghylch rheolwyr a phroseswyr mewn cysylltiad â

Phrosesu y maent yn ei wneud ac a reoleiddir gan GDPR y DU,

gan ystyried awdurdodaeth [llysoedd y DU] i ddyfarnu achosion a ddygir gan destunau data'r AEE yn erbyn rheolwyr a phroseswyr mewn cysylltiad â phrosesu y maent yn ei wneud ac a reoleiddir gan GDPR y DU,

[Noder: Yn dibynnu ar gyfreithiau gwladwriaeth yr AEE efallai y bydd modd adlewyrchu'r ddau baragraff uchod mewn cysylltiad â hawliau testunau data'r DU gerbron awdurdod goruchwyllo diogelu data'r AEE neu Lys yr AEE. Fodd bynnag, bydd angen ichi wirio hyn yn gyntaf gydag awdurdod cyhoeddus yr AEE.]

gan gydnabod pwysigrwydd trafodaeth reolaidd rhwng yr Awdurdodau a'u hawdurdodau goruchwyllo diogelu data cenedlaethol,

gan roi sylw i'r angen i Brosesu Data Personol i wireddu'r mandad cyhoeddus ac arfer yr awdurdod swyddogol a freiniwyd yn yr Awdurdodau, a

gan ystyried yr angen i sicrhau cydweithrediad rhyngwladol effeithlon rhwng yr Awdurdodau gan weithredu'n unol â'u mandadau fel y'u diffinnir gan gyfreithiau perthnasol i [mewnoder swyddogaeth gyhoeddus berthnasol Awdurdodau],

maent wedi dod i'r ddealltwriaeth ganlynol:

I. Diben a Chwmpas

Mae'r Trefniant hwn wedi'i gyfyngu i drosglwyddo Data Personol Perthnasol rhwng [awdurdod cyhoeddus yr AEE] ac [awdurdod cyhoeddus y DU], yn rhinwedd eu swyddogaethau fel awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdodau wedi ymrwymo i sicrhau bod trefniadau diogelu priodol ar waith ar gyfer Prosesu Data Personol Perthnasol wrth arfer eu priod gyfrifoldebau.

Mae pob Awdurdod yn cadarnhau y gall ac y bydd yn gweithredu'n gyson â'r Trefniant hwn ac nad oes ganddo unrhyw reswm dros gredu bod y Gofynion Cyfreithiol Perthnasol presennol yn ei atal rhag gwneud hynny.

[Noder: I'w gynnwys os yw'n berthnasol] Bwriad y Trefniant hwn yw ategu'r trefniadau rhannu gwybodaeth presennol neu'r memoranda sydd o bosibl yn bodoli rhwng [awdurdod cyhoeddus yr AEE] ac [awdurdod cyhoeddus y DU], a bod yn berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys gwybodaeth y gellir ei rhannu at ddibenion goruchwyllo neu orfodi.

Mae Hawliau Testunau Data effeithiol a gorfodadwy ar gael o dan Ofynion Cyfreithiol Perthnasol yn awdurdodaeth pob Awdurdod. Fodd bynnag, nid yw'r Trefniant hwn yn creu unrhyw rwymedigaethau sy'n rhwymo mewn cyfraith, yn rhoi unrhyw hawliau sy'n rhwymo mewn cyfraith, nac yn disodli cyfraith ddomestig. Mae'r Awdurdodau wedi gweithredu, o fewn eu priod awdurdodaethau, y camau diogelu a nodir yn Adran III o'r Trefniant hwn mewn modd sy'n gyson â Gofynion Cyfreithiol Perthnasol. Mae gan yr Awdurdodau gamau diogelu i ddiogelu Data Personol Perthnasol drwy gyfuniad o gyfreithiau, rheoliadau a'u polisïau a'u gweithdrefnau mewnol.

II. Diffiniadau

At ddibenion y Trefniant hwn:

(a) ystyr "**Gofynion Cyfreithiol Perthnasol**" yw'r fframwaith cyfreithiol perthnasol ar gyfer diogelu Data Personol Perthnasol sy'n berthnasol i bob Awdurdod;

(b) ystyr "**Hawliau Testun Data**" yw hawliau Testunau Data o dan y GDPR a GDPR y DU, gan gynnwys:

i. **yr hawl i beidio â bod yn destun penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys Proffilio**: hawl Testun Data i beidio â bod yn destun penderfyniadau cyfreithiol a wneir yn ei erbyn ar sail Prosesu awtomataidd yn unig;

ii. **yr hawl i weld data**: hawl Testun Data i gael cadarnhad gan Awdurdod gadarnhau a yw Data Personol sy'n ymwneud ag ef yn cael eu Prosesu ai peidio, ac os felly, i gael gweld y Data Personol;

iii. **yr hawl i gael gwybodaeth wedi ei dileu**: hawl Testun Data i gael data personol amdano wedi'u dileu gan Awdurdod pan nad yw'r Data Personol yn angenrheidiol mwyach at y dibenion y cawsant eu casglu neu eu Prosesu fel arall, neu pan fo'r data wedi eu casglu neu eu Prosesu fel arall yn anghyfreithlon;

iv. **yr hawl i wybodaeth:** hawl Testun Data i gael gwybodaeth am Brosesu Data Personol sy'n ymwneud ag ef mewn ffurf gryno, dryloyw, ddealladwy a hygyrch;

v. **yr hawl i wrthwynebu:** hawl Testun Data i wrthwynebu, ar sail sy'n ymwneud â'i sefyllfa benodol, ar unrhyw adeg i Awdurdod Brosesu Data Personol sy'n ymwneud ag ef, ac eithrio mewn achosion lle ceir sail gadarn dros Brosesu sy'n drech na'r achos a gyflwynwyd gan Destun y Data neu er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol;

vi. **yr hawl i gael cywiro gwybodaeth:** hawl Testun Data i gael cywiro neu gwblhau Data Personol anghywir amdano gan Awdurdod heb oedi diangen;

vii. **yr hawl i gyfyngu ar Brosesu:** hawl Testun Data i gyfyngu ar Brosesu Data Personol a ddelir amdano pan fo'r Data Personol yn anghywir, pan fo'r Prosesu'n anghyfreithlon, pan nad oes angen y Data Personol ar yr Awdurdod mwych at ddibenion eu casglu neu pan na ellir dileu'r Data Personol;

(c) ystyr "**GDPR**" yw Rheoliad (UE) 2016/679 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 27 Ebrill 2016 ar ddiogelu pobl naturiol o ran prosesu data personol ac ar symudiad rhydd data o'r fath, a diddymu Cyfarwyddeb 95/46/EC (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data);

(d) ystyr "**Trosglwyddo Ymlaen**" yw trosglwyddo Data Personol Perthnasol, ac eithrio Rhannu Data Personol Perthnasol, gan yr Awdurdod Derbyn i drydydd parti mewn gwlad arall;

(e) ystyr "**Data Personol**" yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol a adwaenir neu y mae modd ei adnabod ("**Testun Data**") o fewn cwmphas y Trefniant hwn; person naturiol a adwaenir yw un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol drwy gyfeirio at ddynodwr megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw;

(f) ystyr "**Prosesu**" yw unrhyw weithrediad neu gyfres o weithrediadau a gyflawnir ar Ddata Personol, boed yn ddulliau awtomataidd ai peidio, megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu trwy drosglwyddo, lledaenu neu unrhyw ffordd arall o sicrhau eu bod ar gael, wedi'u halinio neu eu cyfuno, wedi'u cyfyngu, wedi'u dileu neu eu dinistrio;

(g) ystyr "**Cyfrinachedd Proffesiynol**" yw rhwymedigaeth gyfreithiol gyffredinol Awdurdod i beidio â datgelu gwybodaeth nad yw'n gyhoeddus a dderbyniwyd mewn swyddogaeth swyddogol;

(h) ystyr "**Proffilio**" yw Prosesu Data Personol yn awtomataidd sy'n cynnwys defnyddio Data Personol i werthuso agweddau personol penodol sy'n ymwneud â Thestun Data;

(i) ystyr "**Diben**" yw'r diben cyfreithlon a phenodol o gynorthwyo'r Awdurdod Derbyn i gyflawni ei gyfrifoldebau fel y'u nodir yn y cytundeb hwn;

(j) ystyr "**Testun Data Perthnasol**" yw Testun Data y Data Personol Perthnasol.

(k) ystyr "**Data Personol Perthnasol**" yw Data Personol a drosglwyddir o un Awdurdod ("**Awdurdod Trosglwyddo**") i'r Awdurdod arall ("**Awdurdod Derbyn**") o dan y Trefniant hwn;

(l) ystyr "**Tor-amod Data Personol Perthnasol**" yw tor-amod o ran diogelwch data sy'n arwain at ddinistr damweiniol neu anghyfreithiol, colled, newid, datgelu neu fynediad anawdurdodedig i'r Data Personol Perthnasol a gaiff eu trosglwyddo, eu storio neu eu prosesu fel arall;

(m) ystyr "**Rhannu Data Personol Perthnasol**" yw'r ffordd y mae'r Awdurdod Derbyn yn rhannu Data Personol Perthnasol:

i. â thrydydd parti yn ei wlad;

ii. yn achos [awdurdod cyhoeddus yr AEE], â thrydydd parti yn yr AEE; neu

iii. â thrydydd parti mewn gwlad arall pan fo'r trosglwyddiad hwnnw yn seiliedig ar benderfyniad digonolrwydd yn unol â Gofynion Cyfreithiol Perthnasol yr Awdurdod Trosglwyddo; ac

(n) ystyr "**GDPR y DU**" yw'r GDPR yn ôl yr ystyr sydd iddo yn adran 3(10) o Ddeddf Diogelu Data y DU 2018.

NODER: Efallai y bydd angen diffiniadau eraill yn dibynnu ar natur y trosglwyddo

III. Camau diogelu i ddiogelu Data Personol

1. Cyfyngu'r diben: Mae gan yr Awdurdodau gyfrifoldebau sy'n cynnwys [i'w cwblhau fel bo'n berthnasol]. Trosglwyddir Data Personol Perthnasol rhwng yr Awdurdodau i gefnogi'r cyfrifoldebau hyn ac ni chânt eu trosglwyddo at ddibenion eraill, er enghraifft am resymau marchnata neu fasnachol.

Dim ond at y **Diben** y bydd yr Awdurdod Trosglwyddo yn trosglwyddo Data Personol Perthnasol. Ni fydd yr Awdurdod Derbyn yn Prosesu'r Data Personol Perthnasol ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r Diben, nac â'r diben y gellir ei nodi mewn unrhyw gais am yr wybodaeth.

2. Ansawdd a chymesuredd data: Dim ond Data Personol sy'n ddigonol, yn berthnasol ac sy'n gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol i'r Diben y bydd yr Awdurdod Trosglwyddo yn ei drosglwyddo.

Bydd yr Awdurdod Trosglwyddo yn sicrhau, hyd eithaf ei wybodaeth, bod y Data Personol a drosglwyddir ganddo yn gywir a, lle bo angen, yn gyfoes. Os bydd Awdurdod yn ymwybodol bod Data Personol a drosglwyddwyd iddo, neu a dderbyniwyd gan yr Awdurdod arall, yn anghywir, bydd yn rhoi gwybod i'r Awdurdod arall am y data anghywir. Bydd yr Awdurdodau, gan ystyried Diben y trosglwyddo a'r Prosesu ymhellach y Data Personol Perthnasol, yn ychwanegu at, yn dileu, yn rhwystro, yn cywiro neu fel arall yn addasu'r Data Personol Perthnasol, fel y bo'n briodol.

3. Tryloywder: Yn ogystal â chydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran tryloywder o dan y Gofynion Cyfreithiol Perthnasol, bydd pob Awdurdod yn rhoi rhybudd cyffredinol i'r Testunau Data Perthnasol am y canlynol: (a) sut a pham y gall Brosesu a throsglwyddo Data Personol yn unol â'r Trefniant; (b) manylion yr Awdurdod arall y caniateir trosglwyddo'r cyfryw ddata iddo; (c) yr hawliau sydd ar gael i Destunau Data Perthnasol o dan y Gofynion Cyfreithiol Perthnasol, gan gynnwys sut i arfer yr hawliau hynny; (d) gwybodaeth am unrhyw oedi neu gyfyngiadau perthnasol ar arfer hawliau o'r fath, gan gynnwys cyfyngiadau sy'n berthnasol yn achos trosglwyddo Data Personol ar draws ffiniau; ac (e) manylion cyswllt ar gyfer cyflwyno anghydfod neu hawliad.

Caiff yr hysbysiad hwn ei gyflwyno wrth i bob Awdurdod gyhoeddi'r wybodaeth hon ar ei wefan, ynghyd â'r Trefniant hwn, neu drwy sicrhau bod yr hysbysiad a'r Trefniant ar gael i unigolion ar gais (gyda hysbysiad ar ei wefan i'r perwyl hwnnw).

4. Diogelwch a chyfrinachedd: Bydd gan yr Awdurdod Derbyn fesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i ddiogelu Data Personol Perthnasol rhag cael gafael arnynt, eu dinistrio, eu colli, eu newid neu eu datgelu heb awdurdod yn ddamweiniol neu yn anghyfreithlon. Bydd mesurau o'r fath yn cynnwys mesurau diogelwch gweinyddol, technegol a diriaethol priodol. Gall y mesurau hyn gynnwys, er enghraifft, dynodi gwybodaeth yn Ddata Personol, cyfyngu ar bwy sy'n cael gweld Data Personol, storio Data Personol yn ddiogel, neu weithredu polisïau a luniwyd i sicrhau y cedwir Data Personol yn ddiogel a chyfrinachol.

Os bydd yr Awdurdod Derbyn yn ymwybodol o dor-amod mewn cysylltiad â Data Personol Perthnasol, bydd yn hysbysu'r Awdurdod Trosglwyddo cyn gynted â phosibl ac yn defnyddio dulliau rhesymol a phriodol i unioni'r Tor-amod Data Personol Perthnasol hwnnw ac yn lleihau'r effeithiau andwyol posibl.

5. Camau Diogelu sy'n Ymwneud â Hawliau Testun Data

Bydd yr Awdurdodau yn defnyddio'r camau diogelu canlynol wrth drin Data Personol Perthnasol:

Bydd gan yr Awdurdodau fesurau priodol ar waith y byddant yn eu dilyn, fel y bydd Awdurdod, ar ôl cael cais gan Destun Data Perthnasol, yn (1) nodi unrhyw Ddata Personol Perthnasol a gafodd gan yr Awdurdod arall yn unol â'r Trefniant hwn; (2) darparu gwybodaeth gyffredinol, gan gynnwys ar wefan Awdurdod, am fesurau diogelu sy'n berthnasol i drosglwyddiadau i'r Awdurdod arall, a all gynnwys yr hysbysiad sy'n ofynnol o dan Adran III (3) o'r Trefniant hwn (Tryloywder); a (3) sicrhau bod y Data Personol Perthnasol ar gael a chadarnhau bod y Data Personol Perthnasol yn gyflawn, yn gywir ac, os yw'n berthnasol, yn gyfredol.

Bydd yr Awdurdod Derbyn yn caniatáu i Destun Data sy'n credu bod ei Ddata Personol Perthnasol yn anghyflawn, yn anghywir, wedi dyddio neu wedi'u Brosesu mewn modd nad yw'n unol â'r Gofynion Cyfreithiol Perthnasol nac yn gyson â'r camau diogelu a bennwyd yn y Trefniant hwn, wneud cais yn uniongyrchol i'r Awdurdod Derbyn i gywiro, dileu, cyfyngu ar Brosesu, neu rwystro'r Data Personol Perthnasol.

Bydd yr Awdurdod Derbyn, yn unol â'r Gofynion Cyfreithiol Perthnasol, yn ymdrin mewn modd rhesymol ac amserol â chais Testun Data Perthnasol yn ymwneud â

chywiro, dileu, cyfyngu ar Brosesu neu wrthwynebu Prosesu ei Ddata Personol Perthnasol. Caiff yr Awdurdod Derbyn weithredu'n briodol, fel codi ffioedd rhesymol i dalu costau gweinyddol neu wrthod gweithredu ar gais, pan fo'n amlwg bod gofynion y Testun Data Perthnasol yn ddi-sail neu'n ormodol.

Gall pob Awdurdod ddefnyddio dulliau awtomataidd o gyflawni ei fandad yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw Awdurdod Derbyn wneud penderfyniad sydd ag effeithiau cyfreithiol mewn cysylltiad â Thestun y Data neu sy'n effeithio'n sylweddol arno yn seiliedig ar Brosesu'r Data Personol Perthnasol yn awtomatig yn unig, gan gynnwys Proffilio, heb gynnwys pobl.

Mae mesurau diogelu sy'n ymwneud â Hawliau Testun Data yn ddarostyngedig i rwymedigaeth gyfreithiol Awdurdod i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn unol â Chyfrinachedd Proffesiynol neu rwymedigaethau cyfreithiol eraill. Gellir cyfyngu'r camau diogelu hyn i atal rhagfarn neu niwed i swyddogaethau goruchwyllo neu orfodi'r Awdurdodau sy'n gweithredu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a freiniwyd ynddynt, megis ar gyfer monitro neu asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau perthnasol neu atal neu ymchwilio i droseddau a amheuir; ar gyfer amcanion pwysig sydd o fudd cyffredinol i'r cyhoedd, fel y'u cydnabyddir o dan awdurdodaeth yr Awdurdod Derbyn a, pan fo angen o dan Ofynion Cyfreithiol Perthnasol, yr Awdurdod Trosglwyddo, gan gynnwys yn ysbryd cydweithredu rhyngwladol; neu ar gyfer goruchwyllo unigolion ac endidau a reoleiddir. Dylai'r cyfyngiad fod yn angenrheidiol a bod yn ddarpariaeth gyfreithiol, a bydd yn parhau dim ond cyhyd ag y bo'r rheswm dros y cyfyngiad yn parhau i fodoli.

6. Trosglwyddo Ymlaen a Rhannu Data Personol Perthnasol:

6.1 Trosglwyddo Data Personol Perthnasol Ymlaen

Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Trosglwyddo y bydd yr Awdurdod Derbyn yn Trosglwyddo Data Personol Perthnasol, ac os yw'r trydydd parti yn rhoi sicrwydd priodol sy'n gyson â'r trefniadau diogelu yn y Trefniant hwn.

6.2 Rhannu Data Personol Perthnasol

(1) Caiff Data Personol Perthnasol ei rannu yn unol â'r Trefniant hwn dim ond gyda chydysyniad ysgrifenedig ymlaen llaw yr Awdurdod Trosglwyddo, ac os yw'r trydydd parti yn rhoi sicrwydd priodol sy'n gyson â'r trefniadau diogelu yn y Trefniant hwn.

(2) Os na all y trydydd parti roi sicrwydd o dan y paragraff cyntaf, gellir rhannu'r Data Personol Perthnasol â'r trydydd parti mewn achosion eithriadol os yw Rhannu'r Data Personol Perthnasol yn bwysig am resymau o fudd y cyhoedd, fel y cydnabyddir yn awdurdodaeth yr Awdurdod Derbyn a, pan fo angen o dan Ofynion Cyfreithiol Perthnasol, yr Awdurdod Trosglwyddo, gan gynnwys yn ysbryd cydweithredu rhyngwladol, neu os yw Rhannu Data Personol Perthnasol yn angenrheidiol er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

(3) Pan fo Rhannu Data Personol Perthnasol yn digwydd at ddibenion cynnal achos gorfodi sifil neu weinyddol, cynorthwyo mewn gweithgareddau gwyliadwriaeth neu orfodi sefydliad hunanreoleiddiol, cynorthwyo mewn erlyniad troseddol, diogelu buddiannau hanfodol Testun y Data Perthnasol neu unigolyn arall, neu gynnal unrhyw ymchwiliad ynghylch unrhyw gyhuddiad cyffredinol o dor-amod sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth a bennir yn y cais pan fo'r cyfryw gyhuddiad cyffredinol yn

ymwneud â thrangwyddo cyfreithiau a rheoliadau y mae'r Awdurdod Derbyn yn eu gweinyddu, gan gynnwys achosion gorfodi sy'n gyhoeddus, caiff yr Awdurdod Derbyn Rannu Data Personol Perthnasol â thrydydd parti (megis cyrff cyhoeddus, llysoedd, [sefydliadau hunanreoleiddiol] a rhai sy'n ymwneud ag achosion gorfodi) heb ofyn am gydsyniad gan yr Awdurdod Trosglwyddo, na chael sicrwydd, os yw'r broses o Rannu Data Personol Perthnasol at ddibenion sy'n gyson â'r Diben neu â'r fframwaith cyffredinol ar gyfer y defnydd a nodir yn y cais, a'i fod yn angenrheidiol i gyflawni cyfrifoldebau'r Awdurdod Derbyn a/neu'r trydydd parti. [NODER: Dewisol os yw'n berthnasol] [Wrth Rannu Data Personol Perthnasol a dderbynnir o dan y Trefniant hwn â sefydliad hunanreoleiddiol, bydd yr Awdurdod Derbyn yn sicrhau bod y sefydliad hunanreoleiddiol yn gallu ac yn cydymffurfio'n barhaus â'r amddiffyniadau diogelwch a chyfrinachedd a nodir yn Adran III (4) y Trefniant hwn].

(4) Caiff yr Awdurdod Derbyn Rannu Data Personol Perthnasol â thrydydd parti heb ofyn am gydsyniad yr Awdurdod Trosglwyddo, na chael sicrwydd, mewn sefyllfa pan fo angen Rhannu Data Personol Perthnasol yn sgil cais y gellir ei orfodi'n gyfreithiol neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Bydd yr Awdurdod Derbyn yn hysbysu'r Awdurdod Trosglwyddo cyn Rhannu Data Personol Perthnasol ac yn cynnwys gwybodaeth am y data y gofynnir amdano, y corff sy'n gwneud y cais a'r sail gyfreithlon dros Rannu'r Data Personol Perthnasol. Bydd yr Awdurdod Derbyn yn gwneud ei orau i gyfyngu ar Rannu Data Personol Perthnasol, yn arbennig drwy arddel yr holl eithriadau a breintiau cyfreithiol perthnasol.

7. Cyfnod cadw data cyfyngedig: Ni fydd yr Awdurdod Derbyn yn cadw Data Personol Perthnasol am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol ac yn briodol i'r Diben. Bydd cyfnod cadw o'r fath yn cydymffurfio â'r cyfreithiau, y rheolau a/neu'r rheoliadau perthnasol yn awdurdodaeth yr Awdurdod Derbyn o ran cadw data o'r fath.

8. Gwneud iawn: Mae pob Awdurdod yn cydnabod bod modd i Destun Data Perthnasol sy'n credu bod yr Awdurdod Derbyn wedi methu â chydymffurfio â'r camau diogelu a nodir yn y Trefniant hwn, neu sy'n credu bod ei Ddata Personol Perthnasol wedi bod yn destun Tor-amod Data Personol Perthnasol, geisio iawn yn erbyn yr Awdurdod hwnnw i'r graddau a ganiateir gan Ofynion Cyfreithiol Perthnasol. Gellir cyflwyno'r cais hwn am wneud iawn i unrhyw gorff cymwys, a allai gynnwys llys, yn unol â Gofynion Cyfreithiol Perthnasol yr awdurdodaeth lle digwyddodd y diffyg cydymffurfio honedig â'r camau diogelu yn y Trefniant hwn. Gall gwneud iawn o'r fath gynnwys iawndal ariannol am niwed.

Os bydd Testun Data Perthnasol yn dod ag achos o anghydfod neu hawliad yn ymwneud â Phrosesu Data Personol Perthnasol Testun y Data yn erbyn yr Awdurdod Trosglwyddo, yr Awdurdod Derbyn, neu'r ddau Awdurdod, bydd yr Awdurdodau yn hysbysu ei gilydd ynghylch unrhyw anghydfodau neu hawliadau o'r fath, a byddant yn ymdrechu'n deg i gydweithredu a datrys yr anghydfod neu'r hawliad yn gyfeillgar. Mae'r Awdurdod Derbyn yn ymrwymo i roi system ar waith i ymdrin â chwynion a'u datrys yn effeithiol gan Destunau Data Perthnasol sy'n ymwneud â'r Trefniant hwn, a rhaid ymdrin â chwynion heb oedi diangen, ac yn unol â'r amseriadau a'r gofynion a nodir yn Erthygl 12(3) o'r GDPR a GDPR y DU bob amser. Rhaid i'r cwynion gael eu trin gan adran neu berson sydd wedi'i ddynodi'n glir ac sydd â graddau priodol o annibyniaeth wrth arfer ei swyddogaethau. Rhaid i'r ffurflen gais esbonio sut y caiff destunau'r data eu hysbysu am gamau ymarferol y system gwyno, yn benodol: ble i gwyno, ar ba ffurf, oedi wrth ymateb i'r gwyn,

canlyniadau pe cai'r gŵyn ei gwrthod, canlyniadau pe cai'r gŵyn ei hystyried yn un y gellir ei chyfiawnhau, a chanlyniadau os nad yw testun y data yn fodlon ar yr atebion (yr hawl i gyflwyno hawliad gerbron y Llys a chŵyn gerbron yr Awdurdod Goruchwylio).

Os na all yr Awdurdod neu'r Awdurdodau ddatrys y mater gyda'r Testun Data Perthnasol, bydd yr Awdurdodau yn defnyddio dulliau eraill posibl i ddatrys yr anghydfod, oni fydd ceisiadau'r Testun Data Perthnasol yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Bydd dulliau o'r fath yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfryngu nad yw'n rhwymol neu fecanweithiau eraill nad ydynt yn rhwymol o ddatrys anghydfodau, y gellir eu gwneud o bell (megis dros y ffôn neu ddulliau electronig eraill).

Os nad yw'r Awdurdod Derbyn yn fodlon neu'n gallu gweithredu canlyniad y cyfryngu nad yw'n rhwymol, neu'r broses arall nad yw'n rhwymol o ddatrys anghydfodau y cyfeirir atynt yn Adran III (8) y Trefniant hwn, bydd yn hysbysu'r Awdurdod Trosglwyddo a'i awdurdod goruchwylio cymwys diogelu data.

Pan fo'r ddau Awdurdod yn cytuno i beidio â gweithredu canlyniad y dull cyfryngu nad yw'n rhwymol neu ddull arall o ddatrys anghydfodau, bydd yr Awdurdod sy'n brif bwynt cyswllt i'r Testun Data Perthnasol yn ei hysbysu o (1) y penderfyniad i beidio â gweithredu'r dull cyfryngu nad yw'n rhwymol neu ddull arall o ddatrys anghydfod a'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny; a (2) ei hawl i gyflwyno cwyn i awdurdodau goruchwylio cymwys diogelu data yr Awdurdod Trosglwyddo a'r Awdurdod Derbyn, a sut i wneud y gŵyn honno'n ymarferol.

Os yw'r Awdurdod Trosglwyddo o'r farn nad yw'r Awdurdod Derbyn yn cydymffurfio â'r camau diogelu a nodir yn y Trefniant hwn, bydd yr Awdurdod Trosglwyddo yn atal trosglwyddiad Data Personol Perthnasol i'r Awdurdod Derbyn hyd nes y bo'r Awdurdod Trosglwyddo wedi ei fodloni bod yr Awdurdod Derbyn wedi mynd i'r afael â'r pryderon hynny, a bydd yn hysbysu'r Testun Data Perthnasol yn ddi-oed, yn ogystal â'r awdurdodau goruchwylio diogelu data perthnasol o ran yr Awdurdod Trosglwyddo a'r Awdurdod Derbyn.

IV. Perthynas barhaus

1. Bydd pob Awdurdod yn cynnal adolygiadau achlysurol o'i bolisiau a'i weithdrefnau ei hun sy'n ymwneud â gweithredu'r Trefniant hwn a'u heffeithiolrwydd. Os oes unrhyw newid i bolisiau neu weithdrefnau a fydd yn effeithio ar y Trefniant hwn, neu os canfyddir bod unrhyw bolisiau neu weithdrefnau sy'n ymwneud â'r Trefniant hwn yn aneffeithiol yng nghyd-destun adolygiad achlysurol, dylai pob Awdurdod hysbysu'r Awdurdod arall ar unwaith, yn ogystal â'i awdurdod goruchwylio cymwys diogelu data. Ar gais rhesymol gan yr Awdurdod Trosglwyddo, bydd yr Awdurdod Derbyn yn adolygu ei bolisiau a'i weithdrefnau Prosesu Data Personol i gadarnhau a rhoi sicrwydd y caiff y trefniadau diogelu yn y Trefniant hwn eu gweithredu'n effeithiol. Caiff yr Awdurdod Trosglwyddo ei hysbysu o ganlyniadau'r adolygiad.

2. Bydd pob Awdurdod yn hysbysu'r Awdurdod arall yn ddi-oed am unrhyw newid i'r Gofynion Cyfreithiol Perthnasol a fydd yn effeithio ar y Trefniant hwn, ac yn arbennig unrhyw un o'r trefniadau diogelu ac amddiffyn y mae'n eu darparu.

3. Os na all yr Awdurdod Derbyn weithredu'r trefniadau diogelu yn y Trefniant hwn yn effeithiol am unrhyw reswm, bydd yn hysbysu'r Awdurdod Trosglwyddo a'i

awdurdod goruchwyllo cymwys diogelu data yn ddi-oed, a bydd yr Awdurdod Trosglwyddo yn atal dros dro y broses o drosglwyddo Data Personol Perthnasol i'r Awdurdod Derbyn nes y bydd yr Awdurdod Derbyn yn hysbysu'r Awdurdod Trosglwyddo ei fod eto'n gallu gweithredu'n gyson â'r trefniadau diogelu.

V. Diwygio a dirwyn i ben

1. Gall yr Awdurdodau ymgynghori a diwygio telerau'r Trefniant hwn drwy gydgytundeb os ceir newid sylweddol yn y cyfreithiau, y rheoliadau neu'r arferion sy'n effeithio ar weithredu'r Trefniant hwn.
2. Gall Awdurdod roi'r gorau i fod yn rhan o'r Trefniant hwn, gyda'r Awdurdod arall, ar unrhyw adeg. Dylai ymdrechu i roi 30 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r Awdurdod arall o'i fwriad i wneud hynny. Bydd unrhyw Ddata Personol Perthnasol sydd eisoes wedi'i drosglwyddo yn parhau i gael ei drin yn gyson â'r trefniadau diogelu y mae'r Trefniant hwn yn darparu ar eu cyfer.
3. Bydd yr Awdurdodau yn hysbysu'r awdurdodau goruchwyllo cymwys diogelu data ym mhriod wledydd yr Awdurdodau o unrhyw ddiwygiadau sylweddol arfaethedig i'r Trefniant hwn, neu ei ddirwyn i ben.

Dyddiad: